

# MONOLOGAU



Golygydd: Cefin Roberts

# MONOLOGAU

Golygydd: Cefin Roberts

© Delweddau: Canolfan Peniarth,  
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2019.

Golygwyd gan Elinor Wyn Reynolds.

Cyhoeddwyd yn 2019 gan Ganolfan Peniarth.

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn datgan ei hawl moesol dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 i gael ei hadnabod fel awdur a dylunydd y gwaith yn ôl eu trefn.

Cedwir pob hawl gan yr awduron unigol. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, llungopio, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd yn ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cyhoeddwr uchod.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i rhaglen gomisiynu adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg a dwyieithog

## Gair o gyflwyniad

Helo 'na, gyd-actorion. Gair cyflym ar y cychwyn fel hyn i ddymuno'n dda i chi wrth bori, ymhlith yr areithiau yn y casgliad hwn. Cyn hynny, rwy'n cynnig ambell air o gyngor wrth i chi fynd ati i ddewis a dethol; gobeithio bydd hynny o gymorth wrth i chi fynd ati i ddysgu, dehongli ac i lwyfannu.

Mae sawl elfen bwysig i'w hystyried wrth gychwyn ar y broses fynd ati i greu prefformiad, megis eglurder, llyfnder, goslef, symudiadau, diwyg a dehongliad. Ond yr elfen bwysicaf yw eich bod yn cyfleu y cyfan yn onest ac yn ddidwyll, boed hynny mewn arddull naturiolaid neu glasurol. Mae nifer o arddulliau o lwyfannu y gallwch eu dewis er mwyn dehongli pob un o'r areithiau yma, ond y pwysicaf ohonynt, yn fy marn i, yw eich bod yn gallu ein darbwyllo ni, y gynulleidfa, eich bod yn byw y geiriau mae'r cymeriad yn eu dweud ar yr union eiliad yr ydych yn eu hynganu – byw y profiad. Boed yn ddialedd neu gariad, eiddigedd neu edmygedd, dim ond trwy deimlo'r emosiwn hwnnw fel y mae'r gair yn dod o'ch genau y gallwch ddarbwyllo'r gynulleidfa eich bod wedi mynd dan groen y cymeriad.

Unwaith y byddwch wedi gwneud y gwaith caled o ddysgu'r geiriau, dewis pwysleisiadau, symudiadau, emosiynau a rhythmiau eich dehongliad arbennig chi, fe ddylai pob ymarfer o hynny ymlaen ganolbwytio ar wirionedd eich prefformiad. Cymharwch eich prefformiad i un athletwr yn paratoi ar gyfer ras; o'r eiliad mae'r gwn yn tanio mae'n gwybod yn union sut i redeg y ras honno hyd at y llinell derfyn. Nid yr un fydd ei gynulleidfa na'i wrthwynebwyd, ond bydd yn aros yn driw i'w dacteg beth bynnag arall a ddigwydd. Ac fel y rhedwr, byddwch yn darganfod rhywbeth newydd bob tro y byddwch yn mentro'r un darn. Mae angen i ni gadw'r newydd-deb hwnnw bob tro y byddwn yn mentro i'r llwyfan.

## Amseru

Mae'n debyg y byddwch yn defnyddio rhai o'r areithiau yma ar gyfer cystadleuaeth neu glyweliad. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hynny bydd yna gyfyngder ar amser, felly byddwch yn ofalus wrth i chi wneud eich dewisiadau a bod y fonolog yn mynd i gadw at y rheolau a gawsoch.

Wedi dweud hynny, peidiwch ag osgoi ambell araith am ei bod yn ymddangos yn hir ar bapur. Mae gan bob monolog ei thempo a'i chyflymder ei hun a gall araith sy'n ymddangos yn faith mewn print fod yn llawer byrrach wrth ei chyflwyno. Ar y llaw arall, gall rhai monologau edrych yn fyr iawn ar bapur ond, o gychwyn eu perfformio a'u blocio, gallant ymestyn i bara dipyn mwy nag y tybioch.

Unwaith y byddwch yn hapus â'r dewis o dempo i'ch dehongliad, ewch ati i'w hamseru cyn gwneud rhagor o waith arni. Os ydych chi'n hoffi'r araith ond bod yr amseru'n rhy hir yna cofiwch bod modd golygu ambell frawddeg i'w chwtoegi. Cofiwch wneud hynny cyn mynd ati i ddysgu'r geiriau a rhoi unrhyw fanylder i'r dehongliad.

Mae'r rhan fwyaf o gystadleuthau yn gofyn am ddwy fonolog wrthgyferbyniol ac yn

rhoi rhyw saith i wyth munud i'r cyfanwaith. Cofiwch nad oes raid i'r ddwy fonolog fod union yr un hyd; yr amrywiaeth sy'n bwysig, ac nid unrhyw elfen arall. Os ydych chi wir yn mwynhau araith sy'n para rhyw bum munud ac yn ei chael hi'n anodd i'w chwto, yna dewiswch araith fyrrach fel eich ail fonolog.

Mae colegau a chwmnïau theatr a theledu yn gofyn i chi baratoi monologau byrion. Gallwch olygu rhai o'ch hoff fonologau at bwrpas clyweliadau. Mae'n bosibl tocio bob un o'r monologau yma i'ch gofynion chi. Rwyf wedi ceisio dewis monologau sy'n straeon bychan a all sefyll ar eu traed eu hunain – petai'n rhaid tocio, yna ceisiwch gadw prif linydd y stori wrth ichi fynd ati i olygu.

## **Gwisg**

Yn amlach na pheidio, mae gwisg syml yn fwy effeithiol wrth gyflwyno monolog. Peidiwch â mynd i ormod o fanylder. Mae un cerbyn hawdd i'w ddiosg yn llawer mwy effeithiol; siaced neu glogyn, côt neu sgarff hyd yn oed. Bydd hyn yn eich galluogi i newid yn llyfn o un cymeriad i'r llall petai angen, ac mae'n gwneud bywyd yn llawer rhwyddach wrth baratoi ar gyfer eich perfformiad.

At ofynion cystadleuaeth, cyngerdd neu unrhyw berfformiad cyhoeddus mae ychwanegiad gweledol syml fel hyn yn dderbyniol, ond i glyweliad mae'n fwy arferol i wisgo eich dillad eich hunain gan adael i'ch llais, osgo a'ch amseru wneud y dehongli'n gyfangwbl. Gallwch feimio prop hefyd petai raid.

## **Awgrymiadau ar lwyfannu**

Cyn eich bod yn cychwyn rhoi bloc (symudiadau) i'r cymeriad, dewch i nabod rhythm ac ystyr yr araith yn drylwyr. Mae'n braf bod yn rhydd o hualau sgrïpt ac amheuan wrth ichi ddechrau dehongli â'r corff. Wedi i chi ddod i nabod hyd a lled eich cymeriad, bydd iaith y corff yn datblgu'n llawer mwy naturiol pan ddewch i ddechrau ystyried eich llwyfaniad.

Astudiwch yr araith yn fanwl. Bydd ambell linell yn cymhell ystum neu symudiad, ond cofiwch nad oes angen crwydro ar hyd y llwyfan drwy gydol unrhyw araith (ond mae eithriadau, wrth gwrs). Mae cerdded diamcan yn gallu tynnu llawer gormod o sylw oddi wrth gwir neges eich cyflwyniad a gall llonyddwch fod yn llawer mwy effeithiol yn aml. Didwylledd a naturioldeb sydd bwysicaf bob gafael. Am ragor o gyngor ar hyn darllenwch araith Hamlet i'w actorion yn y ddrama fawr gan William Shakespeare, Act 3, Golygfa 2.

Mewn monolog, araith neu ymson, mae gan yr actor un peth pwysig iawn i'w ystyried cyn cychwyn ar y bloc – gyda phwy mae ef, neu hi, yn siarad? Gan fod y llygaid yn arf cryf i bob actor llwyfan mae gwybod pwy yn union y mae'n ymgomio ag ef neu hi yn rhoi syniad pendant iddo lle i gyfeirio ei lygaid. Ydy'r cymeriad yn annerch torf? Os hynny, yna gall yr actor ddefnyddio'r gynulleidfa sydd eisoes yn eistedd yn yr awditoriwm. Ond os yw'n

siarad â chymeriad arall, yna mae'n rhaid iddo fod yn gyson ei gyswllt llygaid â'r cymeriad (anweladwy) sydd o'i flaen. Does dim rhaid iddo fod yn edrych arno fo neu hi drwy gydol yr araith, ond mae'n rhaid bod yn ofalus, pan nad yw'n edrych i fyw llygaid y cymeriad dychmygol hwnnw, ei fod yn dychwelyd ei drem i union yr un man pan fydd am edrych arno yr eildro. Mae'r sialens yn dwysáu pan fo'r cymeriad yn annerch mwy nag un cymeriad yn ystod yr araith, ond cofiwch fod yn driw i'r cyswllt llygaid yma bob amser. Gallwch ddrysu'r gynulleidfa os na fydd trem a ffocws y llygaid wedi ei ymarfer i'r fodfedd wrth ymgomio â chymeriad arall ar lwyfan.

Mae'r llygaid yn ymateb mewn modd cwbl wahanol pan fo'r cymeriad yn ymsona hynny yw, yn siarad ag ef ei hun. Mae angen i fynegiant y llygaid fod yn wahanol yma – yn fewnol bron. Dylai'r gynulleidfa deimlo nad yw'r cymeriad yn edrych allan arnyn nhw drwy'r bedwaredd wal, ond, yn hytrach, fel petai'n edrych i mewn arno fo/hi ei hun. Nid yw'r ffocws hanner mor dreiddgar ac mae'r cymeriad angen ymddangos fel petai mewn rhyw fath o lesmair neu freuddwyd. Yn araith enwog Lady Macbeth mae'r Arglwyddes yn siarad ag ellyllon ac ysbrydion y nos, mae Edmund, yn *Y Brenin Llŷr*, yn siarad â'r duwiau, tra mae Hamlet, wrth ystyried lladd ei hun, yn siarad yn llwyr â'i isymwybod a'i gydwybod. Am ragor o ymchwil edrychwch ar rai o'r actorion mawr yn perfformio'r areithiau yma ar YouTube. Mae'n ffordd bleserus a difyr o ddysgu am y grefft unigryw yma. Ond gochelwch rhag dynwared portread unrhyw actor enwog o'r areithiau yma. Dylai'ch dehongliad chi fod yn unigryw, gwahanol a gwreiddiol.

Cefin Roberts

# MONOLOGAU

---

## 1. AMADEUS

**PETER SHAFFER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts**

**1a) fersiwn gogleddol**

**1b) fersiwn deheuol**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Amadeus gan Peter Shaffer a  
gyhoeddwyd gan Samuel French Ltd © 1980.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Macnaughton  
Lord Representaion.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf  
at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,  
Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | post@peniarth.cymru

1 a)

**AMADEUS – PETER SHAFFER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts (fersiwn gogleddol)**

**MOZART:** Dwi ddim yn eich deall chi! Pob un ohonoch chi ar ben eich tomen ond tine pawb yn y golwg! 'Dach chi'n hidio'r un ffeuen am dduwiau nac arwyr. Tasach chi'n onest – bob copa walltog ohonoch chi – pob un yn fwy cartrefol hefo'r sawl sy'n cyrlio'i wig na Hercules? Neu Horatius? (*Wrth Salieri*) Neu'r ynfyty Ddanaius yna, tasa hi'n dod i hynny! Neu f'un inna, Mithridates, brenin Pontus! *Il sono di Scipione!* Yr holl greiriau poenus hynny! Mor undonog! Mor hirwyntog! Mor hen â phechod! (*Yn sydyn mae'n neidio i fyny ar gadair ac yn llefaru fel traethydd.*) Mae pob opera sgwennwyd y ganrif yma'n hollol syrffedus! Wel ... naw cant nawdeg naw gwaith allan o bob mil. (*Saib. Pawb yn troi ac edrych yn syn arno. Yntau'n piffian chwerthin a neidio i lawr o'r gadair unwaith eto.*)

Drychwch arnan ni! Pedair ceg yn agored led y pen. Y pedwarawd delfrydol! Rown i'r byd am 'i sgwennu hi – yr eiliad yma mewn amser, y rŵan hyn, yn union fel rydach chi. (*Yn dynward eu lleisiau*) Herr Siambren yn meddwl: 'Mozart bowld! Mae'n rhaid imi siarad hefo'r ymerawdwr ar unwaith!' Herr Prefect yn meddwl: 'Mozart anwybodus! Yn bychanu opera â'i afledneisrwydd!' Herr Gyfansoddwr y Llys yn meddwl: 'Mozart yr Almaenwr. Be yn y byd mawr mae o yn 'i wybod am opera?' A Mozart ei hun yn eu plith yn meddwl: 'Dwi ond yn llwch y llawr. Pam anwybyddu yr hyn dwi'n 'i ddweud?' (*Yn gynhyrfus wrth Van Sweten.*) Dyna pam mae opera mor bwysig, Farwn. Mae o'n fwy credadwy nag unrhyw ddrama! Byddai'n rhaid i ddramodydd nodi'r holl feddyliau yna y naill ar ôl y llall i groniclo'r eiliad yma mewn amser. Gall cyfansoddwr nodi'r cwbl yr un pryd a dal i'n galluogi i glywed y cyfan. Dyfais aruthrol: y pedwarawd lleisiol. (*Cynhyrfu mwy a mwy*) Dwi'n deud wrthych chi, *dwi* am sgwennu ffinale fyddai'n para hanner awr! Pedwarawd yn troi'n bumawd yn troi'r chwechawd yn troi'n seithawd – yn wythawd – yn noned ac yn ddegawd! Ymlaen ac ymlaen, yn hirach ac yn lletach – bob smic yn lluosu a chwyddo'r un pryd – a'r ymchwydd yn creu sain newydd sbon danlli – mi wranta i chi mai felly mae Duw yn clywed y byd. Miliynnau o seiniau'n dyrchafu'r un pryd ac yn chwyrlïo'n ei glust yn gerddoriaeth ddi-ben-draw na allwn ni byth ei amgyffred. (*Wrth Salieri*) Dyna'n gwaith ni! Dyna'n *gwaith* ni. Ni, gyfansoddwyr: cyfuno ei isfeddyliau o, ac yntau, a fyntau, a hi a hithau – myfyrdodau morynion a chyfansoddwyr y llys – a throi'r gynulleidfâ yn Dduw. (*Saib. Annifyrwch. Mozart yn gwneud sŵn rhech a phiffian chwerthin eto.*)

Mae'n ddrwg gen i. Dwi'n malu awyr drwy'r dydd. Amhosib i'w drin. Mae'n hafod i ym mhobman. Ond ma'nghalon i'n iawn.

1 b)

**AMADEUS – PETER SHAFFER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts (fersiwn deheuol)**

**MOZART:** Wi ddim yn eich deall chi! Pob un ar ben eich tomen ond tine pawb yn y golwg! Chi ddim yn becco taten am dduwie nac arwyr. Tasech chi'n onest – bob copa walltog ohonoch chi – bob un yn fwy cartrefol gyda'r sawl sy'n cyrlïo'i wig na Hercules? Neu Horatius? (*Wrth Salieri*) Neu'r ynfytyn Ddanaius yna, tase fe'n dod i hynny! Neu f'un inne, Mithridates, brenin Pontus! *Il sono di Scipione!* Yr holl greirie poenus 'ny! Mor undonog! Mor hirwyntog! Mor hen â phechod! (*Yn sydyn mae'n neidio i fyny ar gadair ac yn llefaru fel traethydd.*) Mae pob opera sgrifennwyd y ganrif hon yn hollol syrffedus! Wel ... naw cant nawdeg naw gwaith mas o bob mil. (*Saib. Try pob un ac edrych yn syn arno. Yntau'n piffian chwerthin a neidio i lawr o'r gadair unwaith eto.*)

Drychwch arnon ni! Peder ceg agored led y pen. Y pedwarawd perffeth! Fe roien i'r byd am 'i sgrifennu hi – yr eiliad yma mewn amser, nawr, yn gwmws fel ry'ch chi. (*Yn dynwared eu lleisiau*) Herr Siambren yn meddwl: 'Mozart bowld! Mae'n rhaid imi siarad gyda'r ymerawdwr ar unwaith!' Herr Prefect yn meddwl: 'Mozart anwybodus! Yn bychanu opera â'i afledneisrwydd!' Herr Gyfansoddwr y Llys yn meddwl: 'Mozart yr Almaenwr. Beth yn y byd mawr mae e yn 'i wbod am opera?' A Mozart ei hun yn y eu plith yn meddwl: 'Wi ond yn llwch y llawr. Pam anwybyddu yr hyn sydd 'da fi i'w ddweud?' (*Yn gynhyrfus wrth Van Sweten.*) Dyna pam mae opera mor bwysig, Farwn. Mae e'n fwy credadwy nag unrhyw ddrama! Byddai'n rhaid i ddramodydd nodi'r holl feddylie 'na, y naill ar ôl y llall, i gronïclo'r eiliad yma mewn amser. Gall cyfansoddwr nodi'r cwbl yr un pryd a dal i'n galluogi i glywed y cyfan. Dyfais aruthrol: y pedwarawd lleisiol. (*Cynhyrfu mwy a mwy*) Wi'n gweud wrthych chi, wi am sgrifennu ffinafe fydd yn para hanner awr! Pedwarawd yn troi'n bumawd yn troi'n chwechawd yn troi'n seithawd – yn wythawd – yn noned ac yn ddegawd! Ymla'n ac ymla'n, yn fwy ac yn fwy – pob sill yn lluosu ac ymchwyddo'r un pryd - a'r ymchwydd yn creu sain cwbl newydd – wi'n eich sicrhau chi mai fel 'ny mae Duw yn clywed y byd. Miliynne o seinie'n dyrchafu'r un pryd, ac yn chwyrlïo'n ei glust yn gerddorieath ddi-ben-draw na allwn i byth ei amgyffred. (*Wrth Salieri*) Dyna'n gwaith ni! Dyna'n gwaith ni. Ni, gyfansoddwyr: cyfuno ei isfeddylie fe, a fe, a fynte, a hi a hithe – myfyrdode morynion a chyfansoddwyr y llys – a throi'r gynulleidfa yn Dduw. (*Saib. Annifyrwch. Mozart yn gwneud sw'n rhech a phiffian chwerthin eto.*)

Mae'n ddrwg 'da fi. Wi'n siarad dwli drwy'r dydd. Amhosib i'w drin. Ma 'nhafod i ym mhobman. Ond ma 'nghalon i'n iawn.



## **Cefndir**

Perfformiwyd yn gyntaf yn Llundain yn 1979. Enillodd wobr Tony Award am y ddrama orau a'r *Drama Desk Award for Outstanding New Play*. Drama am y berthynas gymhleth rhwng y ddau gyfansoddwr Salieri a Mozart yw hon, wedi ei lleoli yn Fienna yn hanner olaf y 18fed ganrif.

## **Cynnwys**

Yn yr araith yma mae Mozart yn gwneud cyff gwawd o Salieri, cyfansoddwr y llys, y Barwn van Swieten a'r Siamberlen von Strack gyda'i syniadau. Ond mae'r gwawdio hefyd yn arddangos ei glyfrwch a'i weledigaeth fawr.

## **Awgrymiadau**

Gan fod ffilm enwog o'r gwaith eisoes ar gael, gallwch wylio'r dehongliadau yma'n rhwydd. Ond cofiwch greu eich cymeriad eich hun a gwylwch rhag efelychu *gormod* ar ddehongliadau actorion eraill, byth. Cofiwch leoli'r cymeriadau yr ydych yn eu hannerch yn yr araith mewn safleoedd fydd yn rhoi digon o amrwiaeth ichi wrth flocio'ch monolog. Os ydych yn defnyddio cadair, yna sicrhewch y gall ddal eich pwysau! Rhaid cael hyder wrth godi i sefyll ar gadair ac annerch cymeriadau anweladwy. Cofiwch fod Mozart, er ei fod yn gymeriad allblyg, yn fregus ac ansicr y tu ôl i allanolion lliwgar ei bersonoliaeth flodeuog.

Mae Mozart yn ei ugeiniau canol yn y ddrama hon ac yn llawn cynnwrf ac awyddfryd. Mae modd chwarae'r araith drwyddi yn ymfflamychol a llawn egni, ond ceisiwch ddarganfod ambell frawddeg, gair, neu anadliad hyd yn oed, lle mae'r cyfansoddwr yn sobri, yn llai dwl, ac o bosibl, yn drist. Mae amrywio tymer a thempo'n rhoi mwy o ddyfnder ac ystyr i'r fonolog.

# MONOLOGAU

---

## 2. BE OEDD ENW CI TINTIN?

**ALED JONES WILLIAMS**

Daw'r dyfyniad hwn o Be O'dd Enw Ci Tin Tin? gan Aled Jones  
Williams.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Aled Jones Williams  
©Aled Jones Williams

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf  
at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant,  
Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | post@peniarth.cymru

**BE OEDD ENW CI TINTIN? – ALED JONES WILLIAMS**

**PAULINE:** (*Yn eistedd yng nghefn tacsï - Distawrwydd*) Tu allan mond sŵn y pibau gwynt a gwres yr haul yn bownsio 'nôl o'r brics i wrïdo 'ngwynab i ... A dwi'n agor y drws ... Eto ... Eto ... Eto ... A dwi'n clŵad sŵn y pryfid ...

*Distawrwydd.*

Ma 'na un yn fa'ma! ... A fanna ... A fancw! ... Drycha! ... Lle, Dad? ... Uwchben y drws ... Ac yn y dŵr golchi llestri ... Ac ar y platia ...

Ni'n dau bob bora yn chwilio am enfysa ... Y seren fach, o wydr glas, yn hongian ar linyr ar y ffenast yn (*Gweiddi*) rhigo (*Yn dawel*) y golau i'w liwia cynhenid ... Ac yn anfon enfysa i bob cwr o'r gegïn ... Y seren fechan las, oer, yn tincial fymryn ar y gwydr ac yn chwalu'r golau'n gawod o liwia ... A finna'n ista ar 'i lin o yn cyfri sawl enfys oedd yna ... Fel tasa 'na ddim byd yn bod ... Ond tu mewn ma uffern pobol ... Yn ddistaw ac yn ddu lle nad oes yna ddim lliwia ... A gola ben bora yn twallt fel o grwc ar 'n penna ni ... A mi oddan ni bron iawn yn medru llewcio'r gola fel petai o'n bisha o binafal ffresh ... A mi oddan ni'n dal y gola yn 'n d'yllo ... Clapio'r gola ... A'r gola'n chwalu'n gawod o liwia ... Coch ... Orenj ... Porffor ... Piws ... Gwyrdd ... Melyn ... Yr union liwia sydd yng ngwynab dyn sydd wedi crogi 'i hun ... DAD! ...

A sŵn y pryfid ... Fel sŵn ffrio ... Yn hisian ... 'U cyrff nhw'n blorod duon hyd 'i ben o ... Ac ar hyd 'i gorff o ... Fel marcia beiro ... A dw i'n dechra cyfogi ... hefo'r ffasiwn ogla ... A tu mewn i mi dwi'n clŵad y gair 'Gwendid!' ... A dwi'n cau'r drws ... Yn glep ... Yn glewtan ... Mond i'w agor o eto drwy'r blynyddoedd ... Eto ... Eto ... Eto ... Eto ... A 'nhad yn fannu yn swingio yn ara bach ... Yn 1983 ... Yn swingio ... Yn y swinging 80's ...

*(Mae modd gorffen yr araith yma gan fod yna glo effeithiol iddi ar y pwynt yma petai chi'n chwilio am araith fer. Ond dyma weddill y fonolog yn ei chyfanrwydd.)*

Yn feis 'i d'yllo ma Mam yn dal y mhen i nes ma 'na gric yn 'y ngwar i ... A dwi 'sho cyfogi ... Sbïa arno fo medda hi ... Sbïa! ... Gwendid! O hyn allan dwi am i ti ddirmygu gwendid ... A ma'r cyfog yn uffernol ... Ond dwi'n 'i ddal o'n ôl ... 'I ddal o i lawr ...

Ma dy dad wedi marw medda nhw'n rysgol ... Nid marw ddaru o ond lladd 'i hun sy'n lot gwell ... Ydy lladd dy hun yn well na marw? ... Gan mil gwell ... Ma pawb yn marw ond chydig sy'n lladd 'u hunain ... A mi fuodd o farw mewn siwt Armani ...

Ddudas di hynny, medda Mam ... Do! ... Do! ... O'n hogan i ... medda hi ... O'n hogan i! ... Marw hefo siwt amdano medda'r genod twp ... Nid amdano ond Armani medda fi heb grio dim ... (*Yn sibrwd fel hogan fach*) Dad! Na' i ddal pwy nath ...

## **Cefndir**

Cynhyrchwyd yn gyntaf gan Theatr Bara Caws yn 2003. Detective Constable Pauline Schramme yw teitl ac enw llawn y cymeriad. Nid yw ei hoed yn cael ei nodi ac felly gellid ei chwarae yn ei hugeiniau cynnar. Fel y ddau dditectif arall yn y ddrama, mae hi'n ymchwilio i mewn i achos o lofruddiaeth hen wraig sydd â'i merch sengl, ganol oed, Anna, dan amheuaeth o'i lladd.

## **Cynnwys**

Mae'r tri ditectif, yn eu tro, yn datgelu rhyw wirionedd am eu hunain yn ystod y ddrama; gwirioneddau nad ydynt yn cael eu trafod yn unman arall o fewn y stori. Yr hyn y mae'r dramodydd yn ceisio ei ddweud wrthym yw fod gan bawb ohonom ryw sgerbwd yn llechu yn rhywle.

## **Awgrymiadau**

Gweithiwch yn galed ar rhythm y fonolog hon. Mae atgofion y cymeriad yn symud o'r naill begwn i'r llall yn sydyn iawn a rhaid newid tempo, awyrgylch ac emosiwn yn gyflym. Fyddwn i ddim yn awgrymu addasu acen yr araith yma gan fod y darn yn dibynnu llawer ar rhythmau iaith lafar yr hen Sir Gaernarfon. Ond mae'r iaith wedi ei llafareiddio'n barod ar eich cyfer, ac felly fe allai unrhyw un roi cynnig arni. Mae'n arferiad da i ymarfer acenion sy'n ddieithr ichi. Mentrwch!

# MONOLOGAU

---

## 3. ELECTRA

**SOFFOCLES**

**Cyfieithiad Euros Bowen**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad Euros Bowen o Electra gan Soffocles  
a gyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru, 1984.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Gwasg Prifysgol Cymru

©Gwasg Prifysgol Cymru

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad at Wasg Prifysgol  
Cymru, Heol Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NS |

gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

---

**ELECTRA – SOFFOCLES****Cyfieithiad Euros Bowen**

**Electra:** Mae'n gywilydd gen i, wragedd, os wy'n ymddangos  
mor gwynfanus ac yn rhy ddiamynedd  
ond mae 'mywyd yn fy ngorfodi i wneud hyn,  
a rhaid ichi gydymddwyn â mi,  
oherwydd sut y gallai unrhyw ferch o fonedd  
sy'n gweld y drygau yn nhŷ ei thad  
lai nag achwyn ar ei chŵyn,  
a minnau ddydd a nos, byth a hefyd,  
yn gweld y cynnydd yn hytrach na lleihad mewn gofidiau?  
I mi, mae cariad cyntaf mam  
wedi esgor, erbyn hyn, ar gasineb.  
Ie, yn fy nghartref fy hun  
rwy'n cyd-fod â llofruddion fy nhad,  
ac mae'r hyn a gaf, a'r hyn nad wy'n ei gael,  
y naill fel y llall, yn dibynnu arnyn nhw.  
Ystyriwch wedyn fy mywyd o ddydd i ddydd  
yn gweld Aigisthos yn torsythu ar orseddfainc fy nhad,  
a syllu arno wedyn yn y gwisgoedd a wisgai 'nhad,  
yn tywallt y diod-offrymau ar yr aelwyd  
lle y lladdodd e, ac i goroni'r haerllugrwydd i gyd,  
gweld y llofrudd yn troi am wely 'nhad  
gyda fy mam resynus, os yw'n briodol i'w galw'n fam -  
ei feistres e'n hytrach,  
hithau'n rhyfygus yn byw megis gydag un  
sy'n halogedig, heb ofni unrhyw ddialedd;  
a mwy na hynny, fel pe bai'n ymfalchïo  
yn yr hyn wnaeth hi.  
Bydd yn nodi'r dydd hwnnw  
y lladdodd fy nhad trwy ddichell,  
ac yn ei ddathlu bob mis â chôr dawns  
ac ag aberth defaid i'r duwiau gwarcheidiol.  
Felly, gyfeillion, 'does dim lle gen i i amynedd  
na dyletswyddau chwaith.  
A chymaint o ddrygau o nghwmpas,  
mwy'r rhaid i minnau ymarfer â drygau.

## **Cefndir**

Mae Electra yn un o'r prif gymeriadau a ddeilliodd o'r trasiediau Groegaidd. Mae hi wedi ei llethu gan alar yn dilyn llofruddiaeth ei thad, Agamemnon, nid yw'n barod i faddau ac mae hi wedi ei meddianu gan yr awydd i ddial. Ar ddychweliad ei brawd, Orestes, mae ei holl wylltineb yn ffrwydro a derfydd y ddrama mewn llanastr llwyr.

## **Cynnwys**

Nid yn unig mae Electra'n galaru yn yr araith yma, ond mae hi hefyd yn llawn cynddaredd tuag at ei mam, Clytemnestra, a'i thad maeth, Aigisthus, am lofruddio Agamemnon, ei thad. Mae'r fonolog yn adeiladu fesul brawddeg yn disgrifio'r hyn y mae Electra yn ei deimlo ac yn bwriadu ei wneud. Mae nifer o gliwiau i'w cael yn yr emosiynau mae'n eu rhestru yn ystod yr araith a ddylai eich helpu yn eich dehongliad: cywilydd, cwynfanus, diamynedd, gofid, casineb, gresynus a dialedd.

## **Awgrymiadau**

Ceisiwch ddychmygu'r galar a'r chwerwedd sy'n llenwi holl enaid Electra. Defnyddiwch yr eirfa rymus yma i danio'r emosiynau'n fewnol a dychmygwch yr holl ddialedd sy'n mynd drwy feddwl Electra. Efallai yr hoffech gymharu Electra â Hamlet, un o'r cymeriadau mawr Shakespeareaidd, a gweld y modd y mae'r ddau ddramodydd yn defnyddio dialedd i greu theatr bwerus iawn. Dylai'r cymysgedd yma o ddialedd a galar fod ym mhob anadliad ac ystum o'ch eiddo, ond cofiwch ei ffrwyno hefyd. Adeiladwch eich angerdd yn raddol a gwyliwch rhag gwthio'r teimladau'n ormodol, yn enwedig ar gychwyn yr araith. Gall yr ynganu weithiau fynd yn aneglur wrth ddefnyddio gormod o emosiwn.

# MONOLOGAU

---

## 4. ANTIGONE

**JEAN ANOUILH**

**Cyfieithiad Roy Owen**

Daw'r dyfyniad hwn o Antigone gan Jean Anouilh. Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Roy Owen a chyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1976.

Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gwasg Prifysgol Cymru a Éditions de La Table Ronde

©Gwasg Prifysgol Cymru (Cyfieithiad Cymraeg yn unig)

© Éditions de La Table Ronde, 1946

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiadau at Wasg Prifysgol Cymru, Heol Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NS |  
gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

a

Éditions de La Table Ronde, Rue de Condé, 75006, Paris |  
editionslatableronde@editionslatableronde.fr



**ANTIGONE – JEAN ANOUILH****Cyfieithiad Roy Owen**

**Milwr:** Fel hyn, syr: y corff, syr! Roeddem ni ar ein gwyliadwriaeth fe fedrwch chi fentro! Ni oedd ar ddyletswydd ddau o'r gloch bore, y ddyletswydd fwya anodd. Wyddoch chi fel mae hi, cyn y wawr. Y plwm ar eich llygaid, eich gwegil yn brifo, a'r cysgodion yn symud, a niwl y bore bach yn codi o'r ddaear ... Hen hwch o ddyletswydd! Roeddem ni'n effro, yn cerdded i fyny ac i lawr ... Doeddem ni ddim yn cysgu, syr. Fe dystiwn ni'n tri, doeddem ni ddim yn cysgu! Doedd dim posibil cysgu, p'run bynnag, roedd hi'n rhy oer ... Yn sydyn, dyma fi'n edrych ar y corff ... Dau gam oeddem ni oddi wrtho fo, ond roedden ni'n taflu llygad arno fo o dro i dro ... Un fel 'na ydw i, syr. Un gor-fanwl fûm i erioed. Dyna pam mae'r swyddogion yn dweud, 'Fe fedrwch chi ddibynnu ar Jonas ...'

Y fi a'i gwelodd o gynta. Fe ddwed y lleill yr un peth. Y fi oedd y cynta i roi bloedd. O weld y corff, syr. Roedd 'na rywun wedi taflu pridd drosto fo. Dim llawer, wyddoch chi. Doedd ganddyn nhw ddim amser a ninnau wrth law. Dim ond ychydig o bridd, ond digon, beth bynnag, i'w guddio rhag y fwluriaid.

Na, nid anifail fu wrthi, syr. Roedd y pridd wedi ei daflu drosto fo. Yn ôl y defodau. Roedd rhywun yn gwybod be oedd o'n ei wneud. Ond doedd dim arlliw o olion ... dim ond ôl troed ysgafnach na deryn bach. Ac wedyn, wedi chwilio 'mhellach, fe ddaeth Durand o hyd i raw, rhaw degan plentyn oedd wedi bod wrthi, ond fe gadwodd y rhingyll y rhaw ar gyfer yr ymchwiliad, rhag ofn.

Ddarau ni ddim siarad, syr, ar fy llw! Ond beth tasai'r lleill wedi siarad efo'r fintai newydd tra roeddan ni fan hyn efo chi? (*yn chwys diferol yn clebran*). Syr, mae gen i ddau o blant, un yn ddim ond babi. Fe wnewch chi dystio 'mod i fa'ma, on'd gwnewch, syr, gerbron y llys ymchwil. Fan hyn roeddwn i, efo chi. Mae gen i dyst! Os oes rhywun wedi siarad, nid fi oedd o! Mae gen i dyst! Mae gen i dyst!

## **Cefndir**

Perfformiwyd y ddrama am y tro cyntaf yn y Theatre de l'Atelier ym Mharis yn 1944. Ei pherfformiad cyntaf ym Mhrydain oedd yn yr Old Vic yn 1949 a chafodd ei chynhyrchu gan Laurence Olivier.

Mae Jonas y milwr yn ei dridegau hwyr, ond mae'n gymeriad y gallai actor ieuengach ei ddehongli. Gwaith Jonas oedd gwarchod corff Polynices, un o frodyr Antigone, a laddwyd mewn brwydr waedlyd rhyngddo ef a'i frawd, Eteocles, am y frenhinaeth. Penderfynodd Creon fod corff Eteocles i'w gladdu'n ddefodol, ond fod corff Polynices i'w adael ar y maes i'w reibio gan gŵn ysglyfaethus, fel na fyddai fyth heddwch i'w enaid. Marwolaeth oedd cosb pwyr bynnag a feiddiai daflu pridd dros nos ar y corff. A dyna'n union a wnaeth Antigone – mynd yn erbyn ewyllys a gorchymyn y brenin.

## **Cynnwys**

Dyn cyffredin yw'r milwr, sy'n poeni am ei swydd, ei deulu a'i ddirchafiad. Mae'n manteisio ar bob cyfle i ddweud wrth y brenin pa mor galed mae'n gweithio a chymaint y mae'n ei aberthu dros y frenhiniaeth. Fo yw'r pegwn eithaf i gymeriad Antigone yn y ddrama. Yr arwres yn poeni dim am beth a ddigwydd iddi hi er mwyn gweithredu cyfiawnder, a'r milwr, ar y llaw arall, yn hidio am neb ond amdano'i hun.

## **Awgrymiadau**

Mae Jonas yn poeni am ei waith a'i enaid wedi iddo gael ei lusgo i mewn i'r sefyllfa yma. Mae'n ymgreinio i'r Brenin Creon ac yn gwybod fod ei fywyd yn y fantol. Dyn cyffredin wedi ei ddal mewn sefyllfa cwbl anghyffredin. Mae'r iaith yn rhoi cyfle ichi greu cymeriad taeog sy'n dipyn o grafwr.

# MONOLOGAU

---

## 5. FIVE KINDS OF SILENCE

**SHELAGH STEPHENSON**

**Cyfieithiad Cefin Roberts**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Five Kinds of Silence gan Shelagh Stephenson  
a gyhoeddwyd gan Methuen Drama yn 1997.

© Shelagh Stephenson 1997.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Julia Tyrrell Management.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan  
Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin,

SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

*FIVE KINDS OF SILENCE – SHELAGH STEPHENSON***Cyfieithiad Cefin Roberts**

**BILLY:** Dwi'n gwely, fel bol buwch, mhenglinia fi'n swat ar 'y mrest. Rhewi ... Brathu o oer, methu cysgu hyd yn oed hefo 'nghôt a'n sgidia fi mlaen. Gweiddi ar y landing, cnocio, curo – fel bob nos. Dad 'di meddwi. Hitha'n sgrechian arno fo. Diawl! Ti'n da i uffar o 'mbyd i mi. Diawl o ddim byd, a fynta'n rhuo fel tarw mewn lladd-dy, dim geiria, rhy feddw i hynny. Dan y gobennydd rwan, fi, rhowch gora iddi ond fedra i 'u clwâd nhw, dwi'n gwbod. Dwi 'di gweld nhw'n brathu a rhwygo – penna'n cnocio ar walia, dannadd yn malu, gwaed yn tasgu. Y mochyn meddw. Bustachu, tri cham ffor 'na, tri cham ffor 'ma, un, dau, tri, un, dau, tri. Pren yn cracio. Y mochyn ffiadd dall! Clwâd nhw'n syrthio, teimlo'i esgyrn, 'i ben o'n colbio'n erbyn y grisia, gewynna'n rhwygo a rhoid. Hi'n deud dos o 'ma, ti'n da i ddim i neb. Dwi'm yn y gwely rwan, rhedag lawr grisia. Drws ffrynt ar agor, hi'n trio'i daflu fo allan i'r stryd ond ma hi'n gafal yn 'i wddw fo ac yn sgrechian fel hyn arrggh – fel hen wrach 'di cholli hi. Dwi'm isio clwâd Mam yn nadu fel 'na felly dwi'n 'i chicio hi. Dwi'm yn gwbod pam. Ond dyna dwi'n neud. Mae o ar 'i linia ar y stryd, rhew ar y lôn, sgleinio. Mae o'n codi a syrthio'n glewt a mae o'n ddall hefo'r ddiod. 'I ddwylo fo ar led, isio rywun i'w helpu fo. Mae o'n gneud ryw swân. Llysnafadd a dagra'n bob man. Ast, medda fo, ast. Bastad dall, rho'r gora iddi, Dad, ti'm i fod i grio – byth. Gas gin i dy weld di'n gneud hynna, casáu gwranddo arnach chdi. Dwi'n falch pan ma hi'n cau drws. Ma hi'n dyrnu 'mhen i, waldan, be ti'n da i fyny? Ma hi'n rhewi'n llofft Mam, dywyll bitsh, fel bod yn ddall dwi'm isio bod yn ddall fatha 'nhad dwi'm isio mynd yn ddall. Ma hi'n tynnu'n 'mraich i a gwasgu hefo'i dwy law fel tasa hi'n gwasgu'r dŵr o ddillad g'lyb. Paid â bod gymaint o fabi, paid â bod gymaint o blydi babi. Dwi'm yn licio meddwl amdano fo yn y twllwch, cnocio i mewn i betha. Dwi'm yn licio meddwl amdano fo. Felly dwi ddim ...

## **Cefndir**

Perfformiwyd y ddrama hon am y tro cyntaf yn y Lyric Hammersmith ym mis Mai, yn y flwyddyn 2000.

Gwelwn Billy'n cael ei ladd gan ei wraig a'i ddwy ferch ar ddechrau'r ddrama, y tair yn rhan allweddol o'r weithred a'r un mor euog â'i gilydd o'r llofruddiaeth. Ond mae presenoldeb sinistr Billy yn rhan allweddol o'r ddrama drwyddi, gan iddo gam-drin ei wraig a'i ddwy ferch yn gorfforol, rhywiol ac emosiynol, fel nad oes modd iddynt ei waredu'n llwyr o'u bywydau. Mae ei lais yn aros drwy gydol y ddrama, yn eu hatgofion a'u hunllefau.

Cafodd Billy ei hun ei gam-drin pan oedd yn blentyn ac mae'r ddrama'n edrych ar y modd y gall person sy'n cael ei gam-drin yn ystod ei blentyndod fynd ymlaen i gam-drin ei blant ei hun.

## **Cynnwys**

Mae'r fonolog hon yn ymddangos yn weddol fuan yn y sript a Billy'n adrodd ei atgofion am ei blentyndod gyda'i rieni treisgar.

## **Awgrymiadau**

Gallai'r araith dywyll hon weithio gyda llongydwch pur. Mae cymaint yn digwydd ynddi o safbwynt yr hyn mae Billy'n ei ddisgrifio, mae digon o symud yn y darluniau mae'n eu hadrodd fel nad oes galw am ormod o waith corfforol. Nid y dylai hynny eich cyfyngu chi o safbwynt y llwyfaniad. Awgrym yn unig yw'r syniad o lonyddwch, ond mae'n teimlo fel bod y cymeriad i mewn yn ei gragen yn adrodd yr atgof tywyll yma.

# MONOLOGAU

---

## 6. ESTHER

SAUNDERS LEWIS

Daw'r dyfyniad hwn o Esther gan Saunders Lewis a gyhoeddwyd gan Wasg  
Dinefwr Press yn 1960

© Saunders Lewis, 1960.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Siwan Jones.

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan  
Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin,  
SA31 3EP | post@peniarth.cymru

**ESTHER:** Na! Na! Mi wyddost y gyfraith. Rwyt ti dy hun yn un o weision y brenin wrth y porth. Mae'r ddeddf yn bendant: pwy bynnag sy'n mynd i mewn at y Brenin heb ei alw, gŵr neu wraig, brenhines neu arall, fe'i rhoir i farwolaeth.

Wyddost ti fod mis cyfan a rhagor er pan alwodd y Brenin fi ato? Er pan welais i o? Deng noson ar hugain.

Mordecai, nid fy newis i oedd priodi'r Brenin. Ti ddaru fy nhorri i allan o Israel. Fe fu misoedd o baratoi, wyt ti'n cofio? Roeddwn i'n dychryn ac yn ffeiddio. A dyma fy nhro i'n dwad, ac mi es i mewn ato fo. A'r funud yr edrychon ni ar ein gilydd, wel, yr oedd popeth yn iawn. Mi wyddwn i'r funud honno nad mater o un noson fyddai hi. Y diwrnod wedyn mi roes o ei law imi'n ffurfiol o flaen y llys, fy mhriodi a rhoi'r goron ar fy mhen, ac fe fu gwledd i'r holl deyrnas am wythnosau.

A rŵan? Mae mis o nosweithiau er pan welais i o. Ddaeth dim un gair oddi wrtho fo. Dim neges. Dim arwydd. A rhwng ei balas o a'm palas innau does ond hanner canllath o lwybr. Rydw i'n cerdded y palas, yn cerdded y gerddi, rhwng y rhos lle y cerddais i gynt gydag yntau, rydw i'n cadw fy mhen yn uchel ymhlith y merched, ac yn dal fy nhafod pan wela i nhw'n cilwenu arna i. Rydw i'n fy ngorfodi fy hun i edrych yn frenhines, ac mae arna i eisiau beichio crio fel babi ar goll.

Rydw i ar goll, Mordecai, ar goll. Ar goll o Israel. Ar goll ym mhalas Persia. Wyt ti'n gweld? Mi rydw i'n ei garu o. Nid ei fawredd o, na dim byd sy'n perthyn iddo fo, ond fo'i hunan, y dyn sy'n ŵr priod i mi.

Nid ofni angau ydw i. Ond ofn iddo beidio ag estyn y deyrn-wialen tuag ata i. Yr ail angau, yn dwad cyn yr angau cynta. Angau'r galon, angau enaid, y siom sy'n farwolaeth fyw, y gallai o edrych o'i orsedd arna i – a pheidio.

Mordecai, paid â bod mor ddwl. Mi wn i gan gwell na thi am balas y merched. Waeth gen i flewyn amdanyn nhw. Pa ots, pa ots o gwbl, ond iddyn nhw fynd a dŵad. Rydw i'n aros. Fi mae o'n caru. (*Mordecai'n dweud yma nad ydi hi'n credu ei fod yn ei charu*) Ydw, mi rydw i'n ei gredu o. Mae o'n wir. Rhaid iddo fod yn wir. Mae 'mywyd i'n dibynnu ar ei fod o'n wir.

(*Mordecai'n dweud eto nad ydi hi'r credu'n ei gariad*)

Taw, y blagard gen ti. Paid â'th gablu. Mi af ato. Mi dafla i 'mywyd wrth ei draed o. Mi ddweda i bopeth, fy nheulu, fy nghenedl, a thithau. Ac os derfydd amdanaf, darfydded.

## **Cefndir**

Perfformiwyd am y tro cyntaf yn Theatr Fach Llangefni ym mis Medi, 1959. Gwraig y Brenin Ahasferus yw Esther, sydd wedi cuddio ei thras oddi wrth ei gŵr. Nid yw Ahasferus yn gwybod mai Iddewes yw ei wraig. Mae'r ddrama'n agor gyda darlleniad o broclamsiwn gan Harbona, sef gwas y Prifweinidog Haman, yn hysbysu'r bobl fod 'cenedl sy'n wrthwynebus ei chyfraith i bob cenedl arall' wedi ymgymysgu yn eu plith – sef cenedl yr Iddewon. Mae'r proclamsiwn yn cyhoeddi 'fod dinistrio a lladd a difetha drwy gleddyf a thrwy grog holl genedl yr Iddewon'.

## **Cynnwys**

Siarad â Mordecai'r Iddew y mae Esther yn yr olygfa hon, ac mae hi newydd glywed y proclamsiwn yn cael ei ddarllen. Y proclamsiwn oedd yn cyhoeddi marwolaeth i genedl yr Iddewon. Mae Mordecai'n ceisio perswadio Esther i gyfaddef wrth ei gŵr mai Iddewes yw hithau, a thrwy wneud hynny achub cenedl yr Iddewon. Ond mae Esther yn ofni mentro ei bywyd gan ei bod yn amau nad yw cariad ei gŵr tuag ati'n ddigon cryf i faddau ac i wyrdroi geiriad y proclamsiwn ac achub yr Iddewon.

## **Awgrymiadau**

Mae Esther yn ansicr iawn ar gychwyn y fonolog hon. Mae ei pherthynas â'i gŵr wedi pellhau ac mae hi'n ofni y bydd ei bywyd mewn perygl os y mentrith hi draw i balas y Brenin. Mae yn yr araith gymysgedd o dristwch, hiraeth, gwylltineb, ofn a chariad. Ceisiwch ddyfalu lle yn union mae Esther yn newid o'r naill emosiwn i'r llall gan gofio drwy'r amser ei bod yn frenhines sydd hefyd yn gwybod fod tynged ei chenedl yn ei dwylo.



# MONOLOGAU

---

## 7. ROAD

**JIM CARTWRIGHT**  
**Cyfieithiad Cefin Roberts**

Daw'r dyfyniad hwn o Road gan Jim Cartwright a gyhoeddwyd gan Methuen  
Drama yn 1986.

© Jim Cartwright 1986.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd A. J. Literary Associates LLP.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan  
Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin,  
SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

**ROAD – JIM CARTWRIGHT****Cyfieithiad Cefin Roberts**

**VALERIE:** Dwi 'di ca'l llond bol o ista fan hyn yn aros amdano fo. Fydd o gan mlynadd arall os ceith o hannar cyfla. Am fywyd: codi, bwydo bob babi'n tŷ. Gneud bob dim arall heb ddim. Tra mae o'n 'i yfad o, yfad o, a wela i ddim byd gynno fo mond 'i hen law dew o'n dŵad ata i'n y gwely'n y nos. Hen gi 'di o. Hen gi calad. Dwylo mawr calad. Hen gi mawr calad. Ci efo chŵd yn 'i ffyr. Mi fyswn i'n crio, ond fysa 'na'm dagra'n dŵad. A does 'na'm byd gwaeth na crio gwag. Mae o fatha tagu. Pam 'dan ni'n gneud o? Pam dwi'n aros? Pam? Pam? Pam? Mi fedrwn chi foddich hun mewn cwestiyna a 'dach chi'm callach achos 'dach chi 'di blino gormod i atab. Mae o jest yn cym'yd y Giro a gneud be licith o efo hi. Gadal ryw bunt ne' ddwy ar bwr' pasej weithia – weithia. A fiw chi ofyn ne' mi gewch chi hi gynno fo. Dyna pam dwi'n menthyg – menthyg gin pawb. Ma'n nhw'n helpu fi, ond fetia i chi 'u bod nhw'n casau fi go iawn. Achos mod i'n dal i ofyn a gofyn a fedran nhw ddim deud na. Ma'n nhw'n agor 'u pyrsia a dw inna'n deud diolch, diolch, nes 'dan ni i gyd yn teimlo'n sâl. Ddaw o i mewn yn munud. Allan o'i ben. Deud wrtha fi be i neud yn y tŷ 'ma. Piso a methu'r pan. Gwasgu'r plant yn rhy galad. Gweiddi a pwdu. Wedyn cysgu'n sownd ac yn ddrewllyd. Ma diod yn fastad. Bastad brown, drewllyd ydi o. Môr drewllyd, cyfogyd. A fo 'di'r capten yn llyncu a taflyd. Llyncu a taflyd. Taflyd dŵr brown drewllyd drosta i. O! Be dwi'n ddeud? Dwi'n 'i feio fo, a wedyn dwi ddim yn 'i feio fo. Dim 'i fai o ydi o fod 'na ddim gwaith ... Ond dwi'n 'i gasau o rŵan, ond do'n i ddim. Dwi'n 'i gasau o rŵan a dwi'm ishio. (*Mae'n crio*) Fedrwn ni'm ca'l o'blaen eto? Fedrwn ni? Ca'l o'blaen eto ... fedrwn ni?

**Cefndir**

Cafodd y ddrama ei pherfformio gyntaf yn y Royal Court Theatre yn 1986. Cyfres o ddarluniau am fywydau'r difreintiedig mewn ardal ddosbarth gweithiol, dlawd yw'r ddrama enwog hon. Mae pob golygfa fel drama fechan ynnddi ei hun.

**Cynnwys**

Mae Valerie wedi cyrraedd y gwaelod isaf ac mae hon yn araith dywyll iawn. Ond mae yma lefelau gwahanol o dristwch – cymysgedd o gariad a hiraeth hefyd. Mae Valerie'n dyheu am yr amser a fu, a dylai hynny gael ei gyfleu yn y dehongliad.

**Awgrymiadau**

Ceisiwch ffeindio'r tynerwch o fewn y casineb, yr hiraeth o fewn yr anobaith. Rhaid inni deimlo mai amodau byw sydd wedi effeithio ar y berthynas yma ac y bu yma gariad unwaith – er mor galed yw'r darlun, mae cyfleu yr hyn a fu yn bwysig hefyd.

# MONOLOGAU

---

## 8. WRTH AROS GODOT

**SAMUEL BECKETT**

**Cyfieithiad Saunders Lewis**

Daw'r dyfyniad hwn o En Attendant Godot gan Samuel Beckett a gyhoeddwyd gan Les Éditions de Minuit yn 1952. Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Saunders Lewis a chyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1970.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Siwan Jones, Gwasg Prifysgol Cymru, Les Éditions de Minuit a The Samuel Beckett Estate

©Saunders Lewis, 1970 (Cyfieithiad Cymraeg yn unig)

© Les Éditions de Minuit, 1952

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiadau at Wasg Prifysgol Cymru, Heol Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NS |  
gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

a

Les Éditions de Minuit, 7 Rue Bernard-Palissy, 75006, Paris |  
direction@leseditionsdeminuit.fr

---

**WRTH AROS GODOT – SAMUEL BECKET****Cyfieithiad Saunders Lewis**

**VLADIMIR:** (*Yn ddig*) Peidiwn â cholli amser yn swmera. Gwnawn rywbeth tra bod hi eto'n ddydd. Nid bob dydd y ceir galw am ein cymorth. Nid bod gwir angen am ein cymorth yma chwaith. Mi allai eraill ymdopi gystal â ninne, yn well falle. Y cri a glywson ni gynne bach, cri i'r ddynoliaeth gyfan oedd e. Ond fan yma, y funud hon, ni yw'r ddynoliaeth, er ein gwaetha ni. Manteisiwn ar hynny cyn i'r cyfle fynd heibio. Ni am y tro yw cynrychiolwyr y criw aflan y taflodd anffawd ni i'w plith. Rhaid inni weithredu er anrhydedd iddyn nhw. Wyt ti'n cytuno?

Mae'n wir ein bod ni'n anrhydeddu'r hil wrth bwysu a'n dwylo dros ei gilydd, y dadleuon o blaid ac yn erbyn. Bydd y teigr yn llamu i achub ei hiliogaeth heb eiliad o betruso. Neu ynteu yn dianc am ei fywyd. Nid dyna'r broblem. Be wnawn ni'n nawr, dyna'r cwestiwn. A thrwy lwc gallwn ei ateb. Yng nghanol yr holl drybestod erys un peth yn eglur: ry'n ni'n aros am Godot.

Neu ynteu'n aros i'r nos ddyfod ... (*Saib*) Ry'n ni yn y fan a'r lle, does dim dwywaith. Nid saint mohonon ni, ond ry'n ni yma yn ôl y gair. Faint o bobol all ddweud cymaint â hynny?

Yr hyn sy'n sicr yn y cyfryw amgylchiadau yw bod yr amser yn hir ac felly'n ein gorfodi ninne i'w lenwi â gweithgaredd sydd, sut y dweda i, ar yr olwg gynta'n eitha rhesymol, ond sy'n gynnrych hen arfer. Mi ddwedi di fod yn rhaid hynny rhag i'n rheswm ni suddo. Purion. Ond tybed nad yw'n rheswm ni eisoes ar goll yn nos dragywydd y dyfnderau. Felly y bydda i'n rhyw ame. Rwy'ti'n fy nilyn i?

Ry'n ni'n aros. A blino. (*Cyfyd ei law.*) Na, paid â gwadu, ry'n ni'n alaru ar ein byw, yn ddi-os. O'r gore. Dyma rywbeth i dorri ar yr undonnedd, a beth yw'n hymateb ni? Ei adael e fel wy clwc. Dere; at ein gwaith ... Mewn munud mi ddiflanna'r cwbl, byddwn ninne'n unig eto, yng nghanol y diffeithwch diderfyn.

## **Cefndir**

Ysgrifenydd y ddrama'n wreiddiol yn y Ffrangeg a chafodd ei pherfformio am y tro cyntaf yn y Theatre de Babylone ym Mharis ym 1953. Ystyrir hi yn un o ddramâu mawr yr ugeinfed ganrif.

## **Cynnwys**

Drama am amser yw hon ac mae Vladimir ac Estragon yn aros am ddyfodiad rhywun o'r enw Godot, sydd byth yn cyrraedd. (Gall Godot fod yn rhyw fath o dduw, neu'r creadur mwyaf cyffredin a gerddodd wyneb daear erioed.) Yn yr arddull abswrdaidd fe ddwedodd yr awdur nad yw'n gwybod dim mwy am y cymeriadau yma na'r hyn sydd yn y ddrama ei hun. Mae'r araith hon yn ymddangos yn weddol agos at ddiwedd y ddrama.

## **Awgrymiadau**

Dau drempyn yw Vladimir a'i ffrind, Estragon, ac mae'n rhoi cyfle ichi arbofi â'ch dehongliad unigryw chi. Mae lle yma i fod yn ddyfeisgar yn gorfforol ac yn eiriol. Defnyddiwch iaith gadarn y cyfieithiad i roi grymyster i'ch dehongliad.

## 9. ANTIGONE

**JEAN ANOUILH**

**Cyfieithiad Roy Owen**

Daw'r dyfyniad hwn o Antigone gan Jean Anouilh. Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Roy Owen a chyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1976.

Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gwasg Prifysgol Cymru a Éditions de La Table Ronde

©Gwasg Prifysgol Cymru (Cyfieithiad Cymraeg yn unig)

© Éditions de La Table Ronde, 1946

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiadau at Wasg Prifysgol Cymru, Heol Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NS |  
gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

a

Éditions de La Table Ronde, Rue de Condé, 75006, Paris |  
editionslatableronde@editionslatableronde.fr

**ANTIGONE:** Hapusrwydd ... Pa fath o hapusrwydd sydd i mi? Pa fath o wraig hapus fydd Antigone? Pa driciau bach slei fydd yn rhaid iddi hi eu gwneud, ddydd ar ôl dydd, i fedru cipio â'i dannedd ryw recsyn o hapusrwydd? Wrth bwy y bydd yn rhaid iddi ddweud anwiredd? Ar bwy y bydd yn rhaid iddi wenu'n ffals? I bwy y bydd yn rhaid iddi ei gwerthu'i hun? Pwy fydd yn rhaid iddi ei adael i farw, ac edrych y ffordd arall? (*Creon yn dweud wrthi am dewi*)

Na, wna i ddim tewi. Eisiau gwybod rydw i yn lle i gychwyn i fod yn hapus. Ar unwaith, achos mae'n rhaid i mi ddewis ar unwaith. Rydych chi'n dweud a dweud fod bywyd yn brydferth. Rhowch fi ar ben y ffordd i mi gael gwybod drosof fy hun. (*Creon yn gofyn iddi os ydi hi'n caru Haemon*)

Ydw, rwyf yn caru Haemon. Haemon wydn, ifanc, a garaf fi. Haemon ddigyfaddawd a ffyddlon, fel fi. Ond os ydi eich bywyd chi, yr hapusrwydd yna y siaredwch gymaint amdano, yn mynd i bylu'r fflam sydd ynddo fo, os na welwa Haemon pryd y gwelwaf fi, os na feddylia fod rhywbeth erch wedi digwydd pan fydda i bum munud yn hwyr i'w gyfarfod, os na theimla ar ei ben ei hun yn y byd, a'm casáu, pan chwarddaf heb iddo fo wybod pam, os try'n un o'ch dynionach parchus chi, os bydd rhaid iddo fo ddysgu dweud 'Gwnaf', fel y gweddill ohonoch chi, yna na, dydw i ddim yn caru Haemon.

Ydw, rydw i yn gwybod be rydw i'n ei ddweud. Chi sydd ddim yn deall. Rydw i'n siarad efo chi o bell, bell, o deyrnas sydd y tu hwnt i'ch cyrraedd, efo'r rhychau yna ar eich wyneb, eich doethineb, eich bol tew. (*Yn chwerthin.*) O, rydw i'n chwerthin, Creon, chwerthin. Rydw i'n dy weld, mewn amrantiad, fel roeddet ti'n bymtheg oed. Yr un olwg llywaeth, ond eto'n argyhoeddedig dy fod yn hollalluog. A faint elwach wyt ti? Roddodd bywyd ddim iti ond braster a rhychau ar dy wyneb.

Rydych chi i gyd yn codi cyfog arna i efo'ch hapusrwydd. Eich 'bywyd' sy'n rhaid ei garu, costied a gostio, fel cŵn yn llyfu popeth ar y stryd. Y byw diddrgw didda, a pheidio â disgwyl gormod. Rydw i eisiau bod yn sicr o bopeth, heddiw. A bod mor brydferth â phan oeddwn i'n blentyn. Hynny, neu farw.

## **Cefndir**

Cafodd y ddrama ei pherfformio am y tro cyntaf yn y Theatre de l'Atelier ar Chwefror y 6, 1944 yn ystod meddiannaeth y Natsïaid. Wedi ei chynhyrchu dan sensoriaeth Natsïaidd mae'r ddrama'n trin y thema 'awdurdod' yn amwys, ond gellir gweld sut mae Anouilh wedi defnyddio'r sefyllfa wleidyddol oedd yn bodoli yn Ffrainc ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd i gyfoethogi ei ddrama.

## **Cynnwys**

Edrychwch ar y nodiadau ar gyfer araith y Milwr (rhif 6). Yma mae Antigone yn herio Creon a'i holl awdurdod o flaen y corws. Mae hi'n gwrthod ufuddhau i'r drefn ac yn herio'r brenin yn gyhoeddus.

## **Awgrymiadau**

Mae Antigone'n gymeriad sy'n gymysgedd cymhleth o ddiniweidrwydd ac aeddfedrwydd, yn blentynnaidd ac yn benderfynol, yn ddewr, yn eofn ac yn ofnus i gyd ar yr un pryd. Cofiwch ei bod yn siarad â Creon am y rhan fwyaf o'r araith, ond, ar adegau, mae hi hefyd yn siarad â'r Corws a chymeriadau eraill yn y ddrama. Ystyriwch hyn wrth ichi fynd ati i flocio'r araith.



# MONOLOGAU

---

## 10. TŶ BERNARDA ALBA

LORCA

**Cyfieithiad Mererid Hopwood**

Daw'r dyfyniad hwn o Tŷ Bernarda Alba gan Mererid Hopwood, sy'n gyfieithiad o  
La casa de Bernarda Alba gan Lorca.  
Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Mererid Hopwood  
©Mererid Hopwood  
Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan  
Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin,  
SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

## Cyfieithiad Mererid Hopwood

**ADELA:** Pam wyt ti'n chwilio amdana i? A phwy wyt ti i siarad am adel y dyn i fod? Faint roiet ti i gael newid lle 'da fi?

Dim ond dechre yw hyn. Dwi wedi cael nerth i symud ymlaen. Dwi wedi cael y nerth a'r ysbryd sy ddim 'da ti. Dwi 'di gweld marwolaeth o dan y to hwn, a nawr dwi'n mynd mas i hawlio'r bywyd sydd eiddo i fi. Dod ar ôl arian wnaeth Pepe el Romano. Ond mae 'i lyged e wedi bod arna i drwy'r amser. Ti'n gwbod gystal â fi nad yw e'n caru Angustias – er 'i fod e'n mynd i'w phriodi hi. A ti'n gwbod – achos ti wedi 'i weld e, gweld 'i fod e'n 'y ngharu i. Mae e ishe fi. Ishe fi. Fi. A dyna pam wyt ti am f'atal i rhag mynd gydag e. Sdim ots 'da ti os yw e am gofleidio menyw nad yw e'n 'i charu. Na finne chwaith. All fod gan mlynedd gydag Angustias. Ond mae meddwl amdano fe'n 'y nghofleidio i'n dy hala di'n benwan, achos rwyt ti'n 'i garu fe hefyd. Rwyd ti'n 'i garu fe.

Martrirol! Dim fy mai i yw e. Does dim ateb. Boed i'r un sy'n gorfod boddi, foddi. Fi pia Pepe el Romano. Mae e'n mynd i 'nghymryd i at y brwyn ar lan yr afon.

Alla i ddim dioddef arswyd y tŷ hwn mwy ar ôl profi blas 'i geg e. Dwi'n mynd i fod beth bynnag mae e'n gofyn i fi fod. Y pentre cyfan yn fy erbyn i, yn y'n llosgi i gyda'u bysedd tân, yn cael f'erlyn gan bobl sy'n eu galw'u hunen yn barchus, ac o'u bla'n nhw i gyd, fyddai'n rhoi'r goron ddrain am fy mhen – y goron sy'n eiddo i bob menyw a gaiff 'i charu gan ddyn priod.

Ie, iawn, fe gaua' i 'ngheg. Gad i ni fynd i gysgu, gad i ni adel iddo fe briodi Angustias. Man a man. Ond fydda i'n mynd i fyw mewn tŷ bach twt, lle caiff e ddod i 'ngweld i pryd bynnag bydd chwant arno. Nei di ddim y'n atal i. Ti'n llawer rhy wan. Alla 'i dynnu stalwyn gwylt i'w linie gyda'r nerth sy 'da fi'n 'y mys bach.

Mae nhw'n dweud wrthon ni i garu'n chwiorydd. Rhaid bod Duw wedi ngadel i 'nghanol y tywyllwch dudew, achos dwi'n dy weld di nawr fel 'sen i ddim wedi dy weld di erio'd o'r bla'n.

Symud o'r drws!

Mas o'r ffordd!

## **Cefndir**

Cafodd y ddrama ei pherfformio am y tro cyntaf yn yr Avenida Theatre yn Buenos Aires ym mis Mawrth, 1945. Hon oedd drama olaf y dramodydd a laddwyd, ddau fis ar ôl ei chwblhau, yn y Rhyfel Cartref yn Sbaen. Mae'r ddrama wedi ei lleoli yn nhŷ Bernarda Alba yn Andelucía yn ystod cyfnod o alaru dwys am ei hymadawedig ail ŵr. Yn fam i bump o ferched, mae Bernarda'n tra arglwyddiaethu arnynt drwy gymeryd rheolaeth lwyr dros eu bywydau.

Dim ond merched sydd yn y ddrama hon, yn forynion, cymdogion a theulu ac mae'n llawn tensiynau rhywiol wrth i Bernarda 'garcharu' ei merched rhwng muriau ei chartref.

## **Cynnwys**

Adela yw'r chwaer ieuengaf ac yma mae hi'n herio un o'i chwiorydd (Martirio) trwy ddadlau mai hi mae Pepe el Romano'n ei charu, ac nid ei chwaer hynaf, Angustias. Dyweddi Angustias yw Pepe, ond mae hefyd yn cael perthynas gydag Adela.

## **Awgrymiadau**

Teimladau ac emosiynau wedi cael eu dal dan gaead sydd yma. Yn byw dan reolau caeth iawn, mae'r teimladau hynny bob amser yn mynnu eu ffordd i'r wyneb. Yn groes i ewyllys ei mam, mae Adela wedi gwisgo ffrog werdd er mwyn mynd allan i gwrdd â'i chariad – rhywbeth na fyddai yr un o'r chwiorydd eraill wedi meiddio ei wneud. Ond mae cariad ac angerdd ifanc yn byrlymu yng ngwythiennau Adela, a dylai'r tân hwnnw gael ei ddangos yn eich dehongliad. Mae ei breuddwyd am ryddid yn ei 'thy bach twt' yn drist pan ystyriwn y bydd Adela'n lladd ei hun cyn diwedd y ddrama, pan ddaw i gredu fod Pepe wedi ei ladd. Ond nid yw hynny'n wir; fe fethodd Bernarda a'i ladd wrth geisio'i saethu, ond dihangodd Pepe'n ddi-anaf. Mae hyn yn gwneud tynged Adela druan yn dristach fyth.

# MONOLOGAU

---

## 11 . HOUSE OF AMERICA

**ED THOMAS**

**Cyfieithiad Sharon Morgan Gwlad yr Addewid**

Daw'r dyfyniad hwn o Gwlad yr Addewid , trosiad Cymraeg Sharon Morgan o'r ddrama House of America gan Ed Thomas. Cyhoeddwyd Gwlad yr Addewid gan Parthian Books, Aberteifi yn 2015.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Ed Thomas, Sharon Morgan a Parthian Books.

©Ed Thomas, 2015

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad at Parthian Books, The Old Surgery, Napier Street, Aberteifi, SA43 1ED | [info@parthianbooks.com](mailto:info@parthianbooks.com)

*HOUSE OF AMERICA – ED THOMAS**Cyfieithiad Sharon Morgan Gwlad yr Addewid*

**MAM:** Y peth ambothdi stori, chwel, yw bo' raid i chi ga'l e'n iawn, ne' bydd pobol yn camddiall, a ypseto heb ishe. 'Naco'n i'n meddwl dim drwg,' meddech chi, ond mae'n rhy hwyr, ma'r drwg wedi'i neud. A wedyn 'ny, 'da rai storis, ma' shw' gyment yn dicw'dd mae'n yffach o jobyn gwpod le i ddechre; fel 'sen i'n trial gweu'tho chi nawr beth ddigwyddodd y nosweth na'th y gŵr 'y ngatel i. 'A'th Clem i America', 'na'r ffordd rwydd o weud e, ond ma' mwy iddo fe na 'na. Drifo lorris ma' Clem, chwel, wel smo fi'n gwpod os otyw e'n drifo lorris nawr, smo fi 'di gweld e ers blynydde, na clywed wrtho fe. Wy'n cofio fe'n gweu'tho fi unwaith bod y steering ar y lorri weti mynd pan o'dd e'n drifo lan sha'r North 'na'n rwle. 'Yr hewlydd 'na yw e,' medde fe, 'ma' nhw'n mynd rownd a rownd, rownd a rownd a rownd. Beth wy moyn yw hewl streit, fel yr hewlydd yn America, ti jest yn drifo arni a sdim raid ti ddod off.' Y steering yn 'i ben e o'dd wedi mynd, nace'r steering ar y lorri. 'Wy moyn bywyd newydd mewn tŷ ar bwys y môr yn California,' medde fe. Sdim raid ti fynd i California i ffindo tŷ ar bwys y môr,' medde fi, 'ma' llefydd i ga'l fan 'yn, yng Nghymru.' 'O's, wy'n gwpod,' medde fe, 'ond sdim lle i barco'r lorri.' Mae'n od beth chi'n cofio ambothdi'r dydd ma'r gŵr yn ych gatel chi. O'n i 'di ca'l diwrnod ar y jawl, o'n i'n neud y golch, ond o'dd cath 'da ni, chwel, o'r enw Brando, syniad Clem o'dd e, o'dd Clem yn meddwl y byd o Marlon Brando, ond beth o'n i'n gweld yn ddoniol o'dd bod Marlon Brando erio'd wedi clywed am Clem. Ta beth 'ny, heb wpod i fi benderfynodd y gath fynd miwn i'r mashîn i ga'l nap fach, wel naco'n i'n gwpod bod e 'na, so gïes i'r drws a switshes i fe mla'n. Sdim ishe fi weu'tho chi beth ddigwyddodd nesa, o'dd y gath ffili oefad. Yn sydyn reit dyma Clem yn dod miwn, o'dd e'n dwli'n lân ar y gath so naco'n i'n gwpod beth i weud, ond o'n i jest yn mynd i weud rwpeth pan wetws e, 'Fi off', ne' rwpeth fel'na, a wetes i, 'Beth ti meddwl, off?' 'Wy'n mynd i America,' medde fe. 'Heno.' A wetes i, 'O.' O'dd e'n dishgwyl yn dwp arno'i a medde fe, 'Wel, be' s'da ti weud?' 'Ma' Brando weti marw,' wetes i. 'Wy newydd olchi fe i farwoleth. A'th e miwn i'r mashîn heb wpod i fi, damwen o'dd e.' 'Nest ti fe i sbeito fi,' wetws e, 'nawr fi'n definitely mynd.' 'Ma' fe draw fynna yn y bag Tesco,' wetes i, 'yn wlyb socan.' Shgwlodd e arno'i a droiodd e i fynd, a wetes i, 'Beth ambothdi'r plant?' 'Paid â gatel nhw'n agos at y mashîn,' medde fe, a gïws e'r drws ar ei ôl e. Smo fi 'di gweld e oddar 'ny. So dim ond y plant a fi o'dd ar ôl weti 'ny, wetes i wrthyn nhw le o'dd e 'di mynd a gatawes i fe fel'na. Wetyn gladdes i'r gath ar waelod yr ardd 'da co's lolipop fel croes, nesag at y byji, Bili. Chi'n goffod make do, chwel, y'ch chi?

## **Cefndir**

Enillodd wobwr Time Out am y ddrama newydd orau yn 1988 a gwnaed ffilm o'r ddrama yn 1996. Enillodd y ffilm sawl gwobr Bafta yn ogystal â gwobr am gyfarwyddo yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Stockholm.

## **Cynnwys**

Araith agoriadol y ddrama yw hon, lle mae'r fam yn rhoi cefndir yr hyn a ddigwyddodd i'w phriodas mewn arddull ddryslyd a chymhleth. Does dim sicrwydd os yw'r fam yn dweud y gwir yn yr araith ac felly mae'n gyfle ichi feddwl am ddehongliad cwbl wreiddiol o'r cymeriad tywyll yma. Faint o wirionedd a faint o gelwydd sydd yn yr araith hon. Bydd gofyn ichi ddarllen y ddrama gyfan i ddarganfod hynny.

## **Awgrymiadau**

Mae'r araith yn ddelfrydol i'r rheiny ohonoch chi sy'n mwynhau chwarae cymeriadau hŷn. Gallwch fynegi hynny gydag iaith gorfforol ac ychydig golur – ond yn bennaf yn y chwerwder a'r dryswch sy'n frith yn yr araith hon. Mae yma hiwmor tywyll iawn hefyd, sy'n dipyn o her i'w ddehongli.

# MONOLOGAU

---

## 12. TRANSLATIONS

**BRIAN FRIEL**

### **Cyfieithiad Elan Closs Stephens –Torri Gair**

Daw'r dyfyniad Cymraeg hwn o Torri Gair gan Elan Closs Stephens a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch (2011).

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Elan Closs Stephens a Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst.  
©Elan Closs Stephens

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad at Wasg Carreg Gwalch, 12 Iard yr Orsaf, Llanrwst, Dyffryn Conwy, LL26 0EH | llanrwst@carreg-gwalch.cymru

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Translations gan Brian Friel a gyhoeddwyd gan Faber and Faber Limited (1981).

Cyfieithwyd ac atgynhychwyd drwy ganiatâd The Agency (London) Ltd  
©The Estate of Brian Friel

Darlledwyd yn gyntaf ar BBC Radio ar 16 Mai 1990.

Cedwir pob hawl, ac anfoner ymholiadau at The Agency (London) Ltd, 24 Pottery Lane, Llundain, W11 4LZ | info@theagency.co.uk

**MARIE:** Aroglau melys! Aroglau melys! Bob blwyddyn tua'r amser hyn mae rhywun yn dod 'nôl wedi clywed rhyw aroglau melys. Arglwydd mawr, wnaeth y cnwd tatws fethu rioed yn Baile Beag? Wnaethon nhw fethu erioed? Choelia i byth! Dydan ni rioed wedi gweld bleit yn fan hyn erioed yn ein bywydau ond *mi* rydan ni'n dal i chwilio amdano fo'n tydyn, yn ffroeni trwbwl a methiant ymhobman. Mae'r rhent yn codi eto, mae'r cynhaeaf yn mynd i fethu, mae'r penwaig wedi cilio am byth, mae'r meistri tir yn mynd i'n troi ni allan. Wir i Dduw, dydych chi ddim yn hapus ond pan ydach chi'n drist, a fyddwch chi ddim yn fodlon nes byddwch chi wedi marw.

*Saib. Marie yn anhapus ond yn benderfynol. Yn edrych ar y gweddill.*

Mi ddylen ni i gyd ddysgu siarad Saesneg. Dyna be ma Mam yn ei ddeud. Dyna beth ydw i yn ei ddeud. Dyna be ddwedodd Dan O'Connell mis dwetha yn Ennis. Mi ddwedodd o mai gorau po gyntaf i ni i gyd ddysgu Saesneg.

Dwi'n siarad am Daniel O'Connell. Rydw i'n siarad am Ein Harweinydd Cenedlaethol, Athro, fel y gwyddoch chi'n iawn. A dyma ddywedodd o: 'Mae'r hen iaith yn faen tramgwydd i'n datblygiad ni fel cenedl fodern.' Dyna be ddywedodd o mis diwethaf. Ac mae o'n iawn. Does arna i ddim eisiau Groeg. Does arna i ddim eisiau Lladin. Mae arna i eisiau Saesneg achos fy mod i'n mynd i'r Merica cyn gynted ag y bydd y gwair i mewn.



## **Cefndir**

Wedi ei hysgrifennu yn 1980, cafodd y ddrama ei llwyfannu am y tro cyntaf yn y Guildhall yn Derry. Wedi ei lleoli mewn cymuned wladaidd yn Baile Beag fe ddywed y dramodydd mai ‘drama am iaith yw hon, a dim ond am iaith.’ Er mai iaith yw prif thema’r ddrama, mae Friel hefyd yn tynnu ar hanes a gwleidyddiaeth yr Iwerddon fodern i roi cig ar asgwrn ei thema.

## **Cynnwys**

Carwriaeth driongllog sy’n gefndir i’r araith yma, rhwng Marie, Yolland a Manus. Er nad yw Yolland yn siarad Gwyddeleg na Marie yn siarad Saesneg, mae’r garwriaeth rhwng y ddau yn datblygu, sydd yn siom enbyd i’r darpar athro, Manus, oedd wedi gobeithio priodi Marie. Yma, mae hi’n lleisio ei hawydd i ddianc o’r bywyd tlawd a gwledig sydd wedi ei chaethiwo am yr holl flynyddoedd. Mae hi’n ystyried ymfudo i America, sy’n adlewyrchu’r allfudo anferth a ddigwyddodd yn Iwerddon yn ystod y 19eg ganrif.

## **Awgrymiadau**

Mae yma eco o areithiau Antigone ac Adela yn yr araith yma. Merch ifanc yn teimlo bod tloedi a chulni wedi ei charcharu yn ei chymuned syrffedus. Mae angen dangos ei rhwystredigaeth a’i hawydd angerddol i ddianc. Gallai’r araith yma fod wedi digwydd yng Nghymru hefyd wrth gwrs, mae’r testun yn un agos iawn at ein calonnau.

# MONOLOGAU

---

## 13. SUNDANCE

**ALED JONES WILLIAMS**

Daw'r dyfyniad hwn o Sundance gan Aled Jones Williams.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Aled Jones Williams

©Aled Jones Williams

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at  
Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y  
Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

**SUNDANCE – ALED JONES WILLIAMS**

**SUNDANCE:** A mi o’dd mam yn sâl yn ’i gwely ... ac yn cysgu ... A nesh i roid ’y mys o dan  
 ’i gên hi ... A symud ’y mys ’nôl a mlaen yn ara’, ara’, bach ... Ngoglais i w’t ti,  
 medda Mam a’i llgada hi’n dal ynghau ... Goglais! ... nes i gadw’r gair yna ...  
 Fel tasa fo’n rwbath sanctaidd ... nes i ’i guddiad o yn ’y ngho’ ... . ’I lefaru fo  
 i’r dim byd mawr ... Goglais ... Ac yn y gair ... mae Mam ...

**Pendroni:**

Mae’r nos yn dwad. Sbia ... Yndy hi? ... Fel hen gath ddu yn neidio ar lintal  
 ffenast ... Chdi greodd y nos, ia? ... Sut nes di hynny? ... Rhoi dy law yn erbyn  
 yr haul a diffodd y gola, ia? ... A dyma chdi’n meddwl am enw ar y peth ...  
 ‘Nos,’ meddach chdi w’tha chdi dy hun ... ‘Nos’ ... A dyma chdi’n dychryn  
 hefo’r ffasiwn dwllwch ... A dyma ’na air newydd yn dwad dros dy wefusa di ...  
 ‘Marwolaeth’ ... meddach chdi.

Y nos fel llian bwr’ yn cuddiad bob dim, y sêr yn friwsion ... Y lleuad fel staen  
 myg o de ... O’n i’n cuddiad yn y dŵch ... mond cl’wad lleisia ... ‘Ydy o’n  
 gwbod?’

‘Nacdy.’

‘Faint sgyrni hi?’

‘Rochor yma’i Dolig medda doctor.

‘Lle mae o iddi hi?’

‘Bobman bellach.’

‘Be newch chi hefo fo?’

‘Mi fydd rhaid i ni ei gymryd o.’

‘Ond be am Jac? Gas gin Jac blant!’

‘Ond be gythral arall ’na i hefo hogyn fy chwaer fy hun ...’

‘Got a prayer soldier blue?’

Pidiwch a marw, Mam! Marwch ta’r bitj!

**Yn llafarganu:**

Babi Mam!

Mabi Mam!

Cer i chwara dy fam, babi mam!

**Yn wyllt.**

Pwy 'udodd hynna rŵan?

Fi!

Pwy?

Fi!

Pwy ydy fi?

Fi!

### **Sgrechian yn gras.**

Fi!

Fatha Cremation Milk?

'Naci cariad ... Carnation Milk w't ti'n feddwl ... O! 'mach i ... ti'n ddigri cofia ...'

Be ydy cremation ta, Anti Janice?

'Llosgi.'

Llosgi Mam.

'Dyna o'dd 'i dymuniad hi ...'

Fedar neb fod ishio llosgi.

Ma tyfu fyny'n hurt bost ma raid. 'Dach chi'n deud wrth blant bach: Watjia di losgi rŵan! Paid ti â chwara hefo matjis rhag ofn iti losgi. Ond wedi ichi dyfu i fyny 'dach chi'n llosgi'ch gilydd.

Anti Janice pam o'ddach chi'n deud ar y ffôn w'th Anti Mair fod cansan ar Mam ... cos ffon hedmastyr ydy cansan ...

'Mi fydd 'na gansan ar dy ben-ôl di os ffeindia i dy fod di'n gwrandio rochor arall i'r drws eto ...' Ond sut fedar cansan fod ar Mam?

A dyma hi'n rhoid 'i breichia'n dynn-dynn amdana i ... 'I breichia hi fel gefail yn brathu i mewn i nghnawd i fel ... cansan ...

'Sa ti'n licio dwad i'r pictiwrs efo Anti Janice dy' Sadwrn?'

Byswn! Byswn! Be' sy 'na?

'*High Noon.*'

*High Noon!*

'Ia, *High Noon*, efo Gary Cooper.'

Pwy 'di Gary Cooper?

'Cowboi.'

A mi es i i mewn i'r pictiwrs y pnawn Sadwn hwnnw a dwi rioed 'di dwad allan.

## **Cefndir**

Drama un dyn mewn arddull arbrofol yw *Sundance* a gafodd ei llwyfannu'n gyntaf gan Theatr Bara Caws ym mis Medi 1999. Mae'n ddrama am ddyn/hogyn sy'n byw yn ei ddychymyg ers iddo golli ei fam pan oedd yn hogyn ifanc iawn. Mae'n siarad â chymeriad anweledig sy'n eistedd mewn hen gadair yn ei stafell fyglyd. Mae'n lladd ei elynion yn ei ddychymyg ond ni ddown i wybod os yw'n llofrudd peryglus neu'n actio'i ffantasiau diniwed iddo'i hun yn ei ystafell unig.

## **Cynnwys**

Atgofion am farwolaeth ei fam a geir yma'n bennaf, ac eco o leisiau yr hyn a welodd ac a glywodd yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae o hefyd yn egluro inni pam yr arhosodd Sundance yn ei fyd o ddihangfa am weddill ei fywyd.

## **Awgrymiadau**

Mae yma benrhyddid llwyr gyda'ch dehongliad, ond cofiwch roi sylw i'r holl leisiau sy'n rhan o'r atgofion mae Sundance yn eu hadrodd yma. Ceisiwch ddyfalu hefyd hefo pwy yn union mae Sundance yn siarad. Nid araith i'r gynulleidfa mo hon, mae 'na gymeriad anweledig yn eistedd yno yn gwmmi i Sundance. Ai Duw ydi hwn tybed? Penderfynwch chi. Cofiwch hefyd fod Sundance wedi ei ddylanwadu'n gryf gan ffilmiau cowbois – dylem weld hynny yn ei osgo a'i ffordd o siarad.

## 14. STREETCAR NAMED DESIRE

**TENNESSEE WILLIAMS**

**Emyr Edwards - Cab Chwant**

Daw'r dyfyniad Cymraeg hwn o Cab Chwant gan Emyr Edwards a gyhoeddwyd gan CAA Cymru (2003).

Mae'r dyfyniad yn gyfieithiad o Streetcar Named Desire gan Tennessee Williams, a gyhoeddwyd gan Methuen Drama.

© Tennessee Williams 1947 (Streetcar Named Desire)

© Emyr Edwards 2003 (Cab Chwant)

Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Sheil Land Associates Ltd. sy'n cydweithio â Georges Borchard Inc. yn ogystal ag Emyr Edwards a CAA Cymru.

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad at CAA Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EB | [caa-archeb@aber.ac.uk](mailto:caa-archeb@aber.ac.uk)

a

Sheil Land Associates Ltd, Literary, Theatre and Film Agents, 52 Doughty Street, London, WC1N 2LS | [info@sheiland.co.uk](mailto:info@sheiland.co.uk)

---

**STREETCAR NAMED DESIRE – TENNESSEE WILLIAMS**Emyr Edwards - *Cab Chwant*

**BLANCHE:** Hogyn oedd o – dim ond hogyn – pan o’n i’n ifanc iawn. Pan o’n i’n un ar bymthag ’nes i ddarganfod – cariad. Yn sydyn ac yn rhy berffaith o’r hanner. Oedd y cwbul fel tasach chi wedi taflu gola llachar ar rw bath oedd, cyn hynny, wedi bod yn y cysgod. Dyna sut oedd o’n edrych i mi ar y *pryd*. R’on i’n anlwcus. Mi ges i ’nhwylo. Roedd ’na rw bath – gwahanol ynglŷn â’r hogyn, rhyw nerfusrwydd – rhyw addfwynder a thynnerwch nad oedd yn gydnaws â dyn. Doedd o ddim yn *edrach* yn ferchetaidd o gwbul, ac eto – *roedd y peth* hwnnw *yno*. Mi ddoth ata i am gymorth. Do’n i’m yn sylweddoli hynny. Ar ôl inni briodi ’nes i ddarganfod hynny, pan oeddann ni wedi rhedeg i ffwr’ a dychwelyd a’r cyfan wyddwn i oedd mod i wedi ’i adael o i lawr am ryw reswm dirgel ac na allwn i roi’r cymorth oedd o ’i angen ond na fedrai o son am hynny. Roedd o’n boddi ac yn cydio’n dynn yndda i, ond fedrwn i mo’i dynnu i’r lan, mond cael fy nhynnu i mewn *hefo* fo. Wyddwn i ddim o hynny. Wyddwn i ddim byd ond mod i’n ’i garu o’n annioddefol – ond heb fedru ei helpu o na fi fy hun chwaith. Wedyn, mi ddarganfyddis i, yn y ffordd mwya ofnadwy posib, trwy fynd i mewn i stafell y tybiwn i oedd yn wag ... nad *oedd* yn wag ... ond fod dau berson ynddi.

Wedi hynny fe smalion ni nad oedd dim wedi ’i ddarganfod. Mi yrrodd y tri ohonan ni allan i gasino Moon Lake, yn feddw ac yn chwerthin yr holl ffordd.

Mi ddawnsion ni’r ‘Varsouviana’. Yn sydyn yng nghanol y ddawns mi ryddhaodd yr hogyn o’n i wedi ’i briodi ’i hun o ngafael i a rhedeg allan o’r casino. Ychydig eiliada wedyn – ergyd!

Mi redis i allan – dyna wnaeth pawb. Pawb yn crynhoi o gwmpas y peth erchyll ar lan y llyn. Fedrwn i ddim mynd yn agos am fod cymaint yno. Yna mi gydiodd ’na rywun yn fy mraich, ‘Paid â mynd yn nes! Ty’d yn ôl! Fydda’n well iti beidio gweld!’ Gweld? Gweld be? Yna mi glywis i leisia’n deud ‘Alun! – Alun! Yr hogyn Llwyd! Roedd o wedi gwthio *revolver* i’w geg a thanio – roedd cefn ’i ben wedi – diflannu’n llwyr.

Mi ddigwyddodd gan ’mod i – ar lawr y ddawns – heb lwyddo i reoli’n hun – wedi deud yn sydyn – ‘Mi welis i chdi. Ti’n ffiadd!’ Wedyn mi ddiffoddwyd y gola llachar oedd yn g’leuo’r llyn – ac ers hynny does yna ddim gola wedi bod – dim byd cryfach na’r ganwyll ’na.

## **Cefndir**

Agorodd y ddrama ar Broadway ym mis Rhagfyr 1947 a chafodd ei pherfformiad cyntaf yn Llundain yn 1949. Ystyrir hi ymhlith un o ddramâu pwysicaf yr ugeinfed ganrif.

## **Cynnwys**

Wedi cael trafferthion ariannol a cholli ei swydd mae Blanche DuBois yn symud i fyw at ei chwaer ieuengaf, Stella, a'i brawd yng nghyfraith, Stanley. Mae Blanche yn gymeriad truenus sy'n byw mewn ofn cyson fod ei harddwch yn pylu ac yn rhyfeddu fod safon byw ei chwaer mor isel. Mae'r gwrthdaro'n bennaf yn digwydd rhwng Blanche a Stanley – hi'n credu fod Stanley'n gwrs ac yn greulon efo'i wraig ac yntau o'r farn fod Blanche wedi twyllo Stella o'r arian a etifeddodd Blanche ar ôl gwerthu y cartref teuluol. Yn yr araith yma mae Blanche yn egluro wrth Stanley sut y bu iddi golli ei gŵr yn ifanc iawn. Er fod Blanche yn rhamantu am ei gorffennol, credir fod y rhan yma o'i stori yn wir.

## **Awgrymiadau**

Cofiwch fod Blanche yn fregus iawn ond yn hynod falch ar yr un pryd. Gellir mynegi hyn yn y modd mae'n siarad yn ogystal â'i chyswllt llygaid. Tydi hi ddim yn gyfforddus yng nghwmni Stanley, ac eto fe ddylai fod yna rhyw elfen o goegni yn y modd mae'n chwarae'n gorfforol â'i brawd-yng-nghyfraith – dyna ei natur. Dylech chwarae â'r hyder arwynebol ond ein bod drwy'r amser yn ymwybodol fod crac yn ei phersonoliaeth sy'n dweud wrthym nad yw popeth mor gywrain ag y maent yn ymddangos ar yr wyneb.



# MONOLOGAU

---

## 15. TŶ DOL

**HENRICK IBSEN**

**Cyfieithiad Siôn Eirian**

Daw'r dyfyniad hwn o Tŷ Dol gan Siôn Eirian a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd yn 2006. Mae Tŷ Dol yn gyfieithiad o A Doll's House gan Henrik Ibsen.

Atgynhychwyd drwy ganiatâd Sion Eirian

©Sion Eirian, 2006

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

---

**NORA:** Wy wedi cael fy nibrisio Torfald – yn gynta Tada a wedyn tithe. Roedd y ddau ohonoch chi'n honni 'ngharu i yn fwy na dim arall. Ond dwyt ti ddim. Ma'r syniad o fod mewn cariad gyda fi yn dy ddifyrru di. Dyw hynny ddim yr un peth o gwbl.

Pan o'n i'n byw gyda Tada, fe ddwedodd e bopeth wrtho i. Ro'n i'n gwbod ei farn e am bob pwnc. Ac o'r storfa hynny y llunies i marn inne. A tasen i'n digwydd anghytuno feiddien i ddim gweud wrtho fe, rhag ei ddiario. Fi oedd ei ddoli fach e. Rhwbeth iddo fe chware gyda hi, a wedyn fe symudes i i fan hyn, i dy dŷ dol di. Fe drosglwyddodd e fi i ti. A wedyn o't ti'n neud y penderfyniade i gyd, ynglŷn â'r tŷ 'ma, ynglŷn â phopeth, amdana i hefyd. Fe dyfodd dy opinyne di yn rhan ohono i. Ro'n i hyd yn oed yn rhannu dy chwaeth di ymhob peth! Wel, ddim bob tro falle, ond r'on i'n ffugio 'mod i. Fel o'n i fwya dwl. Wy wedi byw i dy ddiddanu di, am mai dyna o't ti eisie. Diolch i ti, fe grebaches i'n ddim. Dim ond dy ddoli bach di o wraig.

R'on i'n arfer meddwl mod i'n hapus, ond ddim bellach; dim ond yn ddiddig. Wy wedi ca'l 'y nifyrru, a tithe wedi bod yn hael wrtho i. Ond ma'r tŷ 'ma wastad wedi bod yn stafell chware i ti. Finne'n chware gyda'r plant, tithe'n chware gyda fi. A dyna yw'n priodas ni wedi bod.

O Torfald, dwyt ti ddim yn gymwys i ddysgu dim i fi. Allet ti byth ddysgu fi shwd i fod yn wraig dda i ti. A prin mod i'n gymwys i addysgu 'mhlant y'n hunan. Dyna awgrymest ti, funud 'nôl. Yn gynta fe fydd yn rhaid i fi addysgu fy hunan. Ac mae'n rhaid i fi neud. Dyna pam dwi'n dy adel di.

Mae'n rhaid i fi neud hyn cyn ffeindia i fyth mas pwy ydw i a ble ydw i'n sefyll. Alla i ddim aros fan hyn. Fydd gyda ti ddim hawl i'm rhwystro i rhag gneud unrhyw beth. Dydw i ddim eisie dim wrthot ti, ddim nawr, ddim byth.

## **Cefndir**

Llwyfanwyd am y tro cyntaf yn y Royal Theatre, Copenhagen yn Nenmarc yn 1879. Mae'n ddarma arwyddocaol gan ei bod yn trafod ffawd dynes briod mewn cyfnod pan oedd safle'r ferch mewn cymdeithas tipyn yn is a chyfle i hunangyflawni yn brin mewn byd lle roedd dynion yn tra-awdurdodi. Fe gynhyrfodd y dyfroedd i'r fath raddau fel y bu'n rhaid i'r dramodydd ail ysgrifennu'r diwedd glo ar gyfer cynulleidfaoedd yr Almaen am gyfnod – addasiad yr oedd yr awdur ei hun yn ei gasáu ac nid yw'r addasiad hwnnw'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn.

## **Cynnwys**

Hon yw un o areithiau olaf Nora cyn gadael y cartref. Wedi darganfod nad yw ei gŵr yn ei charu hanner gymaint ag yr oedd hi'n ei dybio, mae Nora'n dod i benderfyniad a fyddai wedi bod yn ddewis dewr iawn i'w wneud i ferch yn y cyfnod yma.

## **Awgrymiadau**

Mae Nora'n defnyddio iaith syml a gonest iawn. Mae pob brawddeg wedi ei chynllunio i egluro'n union i'w gŵr pam y daeth i wneud y penderfyniad i'w adael. Dylai eich cyflwyniad fod yr un mor onest ac yn gwbl eglur. Nid ffræo y mae hi – ond egluro'n bwyllog ei rhesymau dros ei adael. Ceiswch ffrwyno'ch emosiynau, gan gofio yr un pryd nad ei gŵr yn unig y mae hi'n ei adael ar ei hôl, ond ei phlant a'i chartref hefyd.

# MONOLOGAU

---

## 16. MACBETH

**WILLIAM SHAKESPEARE**

**Cyfieithiad Gwyn Thomas**

Daw'r dyfyniad hwn o addasiad Cymraeg Gwyn Thomas o Macbeth gan William Shakespeare a gyhoeddwyd gan Cyhoeddiadau Barddas yn 2017. Atgynhyrchwyd drwy ganiatâd E. Jennifer Thomas a Chyhoeddiadau Barddas, Aberystwyth.

©Gwyn Thomas, 2017

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad at Gyhoeddiadau Barddas.

---

**MACBETH – WILLIAM SHAKESPEARE****Cyfieithiad Gwyn Thomas**

**MACBETH :** Rydw i wedi gwneud y weithred.  
'Chlywaist ti ddim sŵn?

Ust! Pwy sy'n cysgu yn yr ail siambr?  
*(Gan edrych ar ei ddwylo)*  
Dyma olwg wir druenus.

Yr oedd 'na un wnaeth chwerthin yn ei gwsg,  
Ac un a waeddodd, 'Mwrddwr!' fel y bu  
I'r ddau ddeffro ei gilydd. Fe sefais i  
A'u clywed. Ond fe ddwed'son nhw eu pader,  
A throi i gysgu eto.

Fe waeddodd un 'Duw a'n bendithio!' a'r llall  
'Amen,' fel pe baen nhw wedi fy ngweld i  
Gyda'r dwylo-dienyddiwr hyn.  
Wrth wrando ar eu hofn, allwn i ddim dweud  
'Amen,' pan ddwed'son nhw, 'Duw a'n bendithio!'  
Ond pam na allwn i ynganu 'Amen'?  
Roedd arna i angen dirfawr iawn am fendith  
A glynodd 'Amen' yn fy ngwddw.

Meddyliais imi glywed llais yn gweiddi,  
'Dim cwsg mwy! Y mae Macbeth yn mwrddro cwsg' –  
Y cwsg diniwed, y cwsg sydd yn esmwytho  
'Dafedd dryslyd pryder, marwolaeth  
Bywyd pob rhyw ddydd, baddon llafur  
Poenus, a balm meddyliau briw, ail gwrs  
Natur fawr, prif faethydd yng ngwledd bywyd.

Fe ddaliai'r llais i weiddi, 'Dim cysgu mwy!'  
I'r tŷ i gyd. 'Glamis sydd wedi mwrddro cwsg,  
Ac felly Cawdor mwy ni chwsg:  
Ni chwsg Macbeth byth mwy.'

Ymhle mae'r curo yna?  
Be sy'n bod arna i, pan fo bob sŵn  
Yn peri dychryn? Pa ddwylo sy 'na yma?  
Ha! Maen nhw'n tynnu'm llygaid i o 'mhen!  
A wnaiff holl eigion Neifion fawr olchi'n  
Lân y gwaed hwn o fy llaw? Na;  
Fe wnaiff fy llaw i'n hytrach ruddo yr aneirif  
Foroedd, gan wneud y gwyrdd yn goch i gyd.

O wybod beth a wnes i, fe fyddai'n well  
imi beidio f'adnabod fy hun.  
(*Cnoc*)  
O deffra Dduncan â dy guro.  
Mi fynnwn i pe medrit!

### **Cefndir**

Cafodd y cyfieithiad yma o *Macbeth* gan Gwyn Thomas ei lwyfannu'n gyntaf gan y Theatr Genedlaethol yng Nghastell Caerffili ym mis Chwefror 2017. Credir i'r ddrama wreiddiol gael ei hysgrifennu yn 1606 yn ystod teyrnasiad James y cyntaf a oedd, ei hun, â diddordeb mawr mewn gwyrachyddiaeth.

### **Cynnwys**

Yma mae Macbeth newydd ladd y Brenin Duncan ac yn dychwelyd at ei wraig yn llawn ofnau ac amheuan. Mae'n dal i gario'r cyllyll gwaedlyd yn ei ddwylo ac eisoes mae'n edifarhau ei weithred. Mae llinell ola'r araith yn awgrymu hynny inni – 'O deffra Dduncan â dy guro/Mi fynnwn i pe medrit!'

### **Awgrymiadau**

Mae Macbeth yn clywed lleisiau yn ei ben yn syth wedi iddo lofruddio'r brenin ac mae'r euogrywdd, o'r eiliad gyntaf, yn dechrau ei ddrysu ef a'i wraig. Mae yma gymysgedd diddorol o ofn, euogrwydd, paranoia ac edifeirwch. Mae wedi ei ddrysu gan ofergoeliaeth a darogan y gwrrhod, a ddywedodd wrtho wrth ddychwelyd o ryfel y byddai'n frenin ei hun ryw ddiwrnod. Hynny, ynghyd â hyder ffug a dylanwad ei wraig sydd wedi gwthio Macbeth i'r weithred hon. Er yn arwr ac yn filwr dewr, mae'r araith yma'n datgelu holl wendidau'r darpar frenin – cyfle ichi arddangos rychwant eang o emosiynau ac i arbrofi'n lleisiol.

Does dim rhaid wrth y cyllyll gwaedlyd i ddehongli'r araith yn effeithiol – eich dewis chi fydd hynny. Bydd angen i'r llwyfaniad fod yn syml os byddwch yn cyflwyno mwy nag un araith yn eich set.

# MONOLOGAU

---

## 17. KILLOLOGY

**GARY OWEN**

**Cyfieithiad Cefin Roberts**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Killology gan Gary Owen, a gyhoeddwyd gan Oberon Books Ltd yn 2017.

© Gary Owen, 2017.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gary Owen.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | post@peniarth.cymru

**DAVEY:** O’dd Dad wedi bygran off.

So ti’n gwbod *though*.

O’dd e wedi bygran off neu o’dd Mam wedi gweud wrtho fe am neud. ’So ti’n gwbod.

Ond ti yn gwbod bod Mam ’na bob awr bob dydd yn ffysan, mynd ar ’yn nerfe i a byth yn blydi hapus.

Ti’n gwbod pan fydd Dad yn dod fydd hi’n *brilliant*.

Lawr ar y tra’th. Mynd i ’ôl *chips*.

Dod gytre a gweud wrth Mam a ma hi’n nodo, nodo, dim gwên, dim byd fel.

Gas Dad *cowboy hat* i fi, gas Dad *ice-cream* i fi.

Gas e? ma hi’n gweud. Ma ishe cot newydd arnot ti, gas Dad un o’r rheiny i ti?

Na, nath e ddim. ’Cos dyw e byth yn.

A ’so ti byth yn dysgu.

Tymed bach ar ôl pen-blwydd fi’n wyth o’ d, Dad yn dreifo lan mewn fan Escort goch.

Bob amser o’dd car newydd ’da fe pan o’dd e’n dod, bob amser yn cwmpo’n bishys.

Dere i weld beth sydd ‘da fi, bydde fe’n gweud. A mas y bac mewn bocs o’dd Masie. Ond do’dd dim enw ’da hi pryd ’ny.

Neis, wedes i.

Mongrel, wedodd e, ond *border collie most* o’dd hi.

Reit, wi’n gweud, cos dyw e’n golygu dim i fi.

Lico hi? ofynodd e.

Sbôs, wedes i.

Gwd, wedodd e, achos ti sy bia hi.

A ’wi’n dishgwyl arni ’ddi ’to. Dal braich fi mas, a mwytho’i phen hi. Ma ’ddi’n



dishgwl arna i'n ddiniwed – smo 'ddi'n cnoi fi, just rhoi dannedd hi ambythdi'n llaw i.

Fi sy bia hi. Y peth byw hyn. A fi sy bia hi.

Ma Mam yn gweud, a ni'n bwydo hi, shwt?

Dad yn gweud, ddof fi â tunie.

A pwy aiff â hi am wâc?

'Wi'n gweud, af fi â hi – am y ddau ddiwrnod cynta walle, ac ar ôl 'ny? A beth am fet? Beth os aiff hi'n dost?

Ma Masie yn 'y mreichie i, slobran reit drosta i.

Dad yn gweud, olreit, af fi â hi 'nôl.

Os taw 'na beth ti moyn, af fi â hi 'nôl.

Ma Mam yn dishgwl arno fe. Arno fi.

Masie'n cwtsho'i hwyneb reit ar bwys 'y ngên i, a'r eiliad 'na wi'n deall pam ma gê'n 'da fi. Ma fe 'na fel bo Masie'n gallu cwtsho 'da fi.

'Wi'n gweud

Plis Mam. Plis.

Mam yn mynd streit mas i'r gegin a dychre smasho sosbenni ambwyti'r lle. 'Wi'n troi ato fe a gweud, diolch Dad.

So i eriôd wedi galw fe'n Dad. Ges i ddim lot o gyfle. Ac er taw un bach o'n i, allen i weud 'i fod e wedi cyffwrdd e.

O'dd galw fe'n Dad, yn 'i neud e'n Dad – fwy nag o'dd e.

Ma' fe'n gweud, 'wi'n gwitho bwys y môr nawr, ddim yn bell. Allet ti ddod i sefyll. Bydde Masie'n joio rhedeg ar y tra'th. Fydde ti'n lico 'na? Daf? Fydde ti'n lico dod i aros?

Smashio'r sosbenni mas y bac yn stopo. Tŷ cyfan yn dala 'i ana'l i glywed beth sy 'da fi i weud. 'Wi'n gweud

Bydden i'n lico 'na, Dad. Byddem i'n lico dod i sefyll 'da ti.

Ma' fe'n estyn 'i fraich mas, rhoi 'i law ar gefen y'n ben i.

'Na'r tro dwetha i fi weld e.

Y tro dwetha i fi weld e – am flynydde.

## **Cefndir**

Cafodd y ddrama ei pherfformio'n gyntaf yn Theatr y Sherman yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2017 ac yn y Jerwood Theatre Upstairs yn y Royal Court ym Mis Mai 2017. Mae'r ddrama'n cwestiynnu os ydi creu a gwerthu delweddau o drais yn cael effaith ar ein hisymwybod ac yn dylwanwadu ar unigolion i weithredu'r trais hwnnw maes o law. Ydi gêmâu cyfrifiadurol treisiol a ffilmiau o'r un natur yn gallu arwain at efelychu'r gweithredoedd a welwn ar sgrin a'u troi'n realiti.

## **Cynnwys**

Yn yr araith hon, down i glywed peth o gefndir Daf, un o'r tri cymeriad sydd yn y ddrama hon. Gwelwn y modd y gall rhieni weithiau rwygo calon plentyn yn ddwy drwy ymladd am eu teyrngarwch a'u cariad.

## **Awgrymiadau**

Mae Daf yn cael ei ddrysu yma gan ddau fath gwahanol o gariad cymhleth ei rieni. Mae'r fam a'r tad wedi gwahanu ac mae Daf yn cofio'r diwrnod arbennig yma fel man cychwyn ei siwrne uffernol drwy ei ieuentid. Drama dywyll yw hon yn llawn tynerwch a chaledi bron bob yn ail frawddeg. Ceisiwch gyfleu y cariad a'r casineb, yr eiddigedd a'r edmygedd sydd wedi eu plethu yn gywrain i mewn i'r araith. Er nad yw'r brif thema am y gêmâu cyfrifiadurol a'r trais yn cael eu trafod yma, mae'n gyfle i bortreadu dryswch y cariad rhwng tad a mab, sydd hefyd yn rhan bwysig o'r plot.

# MONOLOGAU

---

## 18. KILLOLOGY

GARY OWEN

Cyfieithiad Cefin Roberts

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Killology gan Gary Owen, a gyhoeddwyd gan Oberon Books Ltd yn 2017.

© Gary Owen, 2017.

Cyfieithwyd ac atgynhyrchwyd drwy ganiatâd Gary Owen.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | post@peniarth.cymru

**DAVEY:** Peth efo bywyd ydi, os ti'n lwcus, mae o'n cario 'mlaen.

Dwi'n cyrradd pwynt lle dwi'n ca'l act fi'n iawn a ma gin ffrind fi stafall sbâr a mae o'n deud na *last chance* fi 'di hwn, felly paid a gadal fi lawr.

Dwi'n mynd i laibri (*library*) chwilio am job ar compiwtyrs nhw. Ma rhan fwya o jobsys yn betha dwi'm *even* yn gwbo be 'dy nhw a wedyn – ma job 'ma'n mynd yn 'rosbitol.

Ma nhw ishio portar.

Pwshio pobol rownd mewn cadar olwyn ac ar trolis. Ti'm ishio egsams i 'neud hynna – a ginno fi'm egsams. O'n i'n mêd i'r job.

A pan ma'r ddynas 'ma'n gofyn i fi pam gynno fi ddiddordab yn y job, gin i lot i ddeud. A dwi'n gwbod o ffor ma hi'n sbio arna fi a rhoid pensal hi lawr na do's gin lot o bobol 'im byd i ddeud am jobs pwshio pobol ar drolis drw' dydd.

Erbyn dwi 'di gorffan deu'tha hi am 'rosbitol a pam dwi'shio bod yna, ma hi'n ddistaw am 'ipyn bach.

Wedyn ma hi'n deud, sgiwshiwch fy *French*, ond ma' hynna'n blydi *brilliant!*

Felly dwi'n bortar. Gin i oria. Gin i iwniform. Gin i jobsys. Gin i gyflog.

A dwi'n gneud yn OK. Cos ma lot o'r portars yn casau'i jobs nhw.

Dwi'n lyfio job fi.

Ond wedyn, dwi mewn trwbwl am bo fi'n siarad gormod efo pobol. Sister yn cym'yd fi i un ochor a deu'tha fi bod o'n neis bo fi'n siarad efo pobol ond d'yn nhw'm yn cyrradd y theatr ar amsar a falla bo nhw 'di gneud mistêc yn rhoid y job 'ma i fi.

Dwi'n deu'tha hi na, na – 'na i siarad llai, cris-croes.

Ma' hi'n deud na, ti 'di ga'l o'n rong. Ddyliaich chdi neud mwy efo'r cleifion. Ma 'na job fel *health care assistant*. Sy fel yn bwydo pobol, gwisgo amdanyn nhw, molchi nhw. A dwi'n 'i cha'l hi ... a dwi'n bart o'r tîm go iawn rŵan. Dwi'n sychu penola ond dwi'n cymyd *pulses* a monitro a betha hefyd. Dwi'n gweithio'n hun i fyny a dwi'n ca'l syttificets a dwi'n ca'l cynnig mynd ar *part-time* i fi ga'l stydio i fod yn nyrs go iawn a ma nhw'n gwthio'r bwndal drewllyd 'ma i fewn ar droli.

Dwi'n nabod o'n strêth off, er bo fi'm 'di weld o ers blynyddoedd ... Dad.

Dad 'di o ...

### **Cefndir**

Mae'r awdur yn dweud fod y ddrama yn edrych ar beth allai ddigwydd pan nad yw tadau yn cymryd eu cyfrifoldebau am fagu eu plant o ddifrif. Mae o hefyd yn edrych yn fanwl ar y modd y mae delweddau creulon (yn enwedig mewn gêmâu fideo) yn ein dadsensiteiddio. (+ gweler uchod)

### **Cynnwys**

Mae'r araith hon yn ymddangos yn agos at ddiwedd y ddrama, lle mae Daf wedi brwydro i wella ei hun ar ôl cyfnod o ddryswch, bwlio a thrais. Mae'n araith llawn gobaith, ac yn rhoi rhyw fath o gyfle inni weld fod yna oleuni ym mhen draw bob twnnel – ac eto, mae tro yng nghynffon yr araith sydd, o bosib, yn chwalu'r gobaith a gyflwynwyd.

### **Awgrymiadau**

Mae yma hiwmor, annwyldeb a dyfalbarhad – cyfle i ddangos y natur ddynol ar ei gorau. Er gwaetha'i gefndir a'i hanes tywyll, mae Daf yn gallu ymladd ei ffordd yn ôl drwy'r cyfan. Cymeriad dewr sy'n cynnig gobaith.

# MONOLOGAU

## 19. P'TANG YANG KIPPERBANG

**JACK ROSENTHAL**

**Cyfieithiad Cefin Roberts**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o P'tang, Yang, Kipperbang gan Jack Rosenthal, a gyhoeddwyd gan Longman Group Limited yn 1984

© Jack Rosenthal, 1984.

Cyfieithwyd ac atgynhychwyd drwy ganiatâd Casarotto Ramsay & Associates Ltd.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

**ALAN:** Ti'n dlws Ann. Weithia fydda i'n edrach arnach chdi a ti mor dlws dwi 'sho crio. A weithia ti'n edrach mor dlws dwi 'sho chwerthin a neidio fyny ac i lawr a rhedag drw'r stryd heb ddillad yn gweiddi 'P'tang Yang Kipperbang!' yn nrysa pobol. (*Saib*). Ond ti mor dlws – hyd yn oed os nad 'di o'n gneud i *mi* grio mae o'n gneud i fan hyn grio. (*Yn cyffwrdd ei galon*). Dy wefusa di ydi'r tlysa un. Wedyn dy wegil di ... dy groen di. Pan dwi'n cerddad heibio dy ddesg di dwi'n anadlu i mewn er mwyn ogleuo dy groen di. Mae o'r ogleu neisia sy 'na ... Mae o'n 'y ngneud i'n chwil. Meddw. Ti'n ogleuo'n newydd sbon. Ti'n edrach yn newydd sbon. Bob tamad ohonach chdi. Y blew bach meddal ar dy freichia di ... Ond dy wefusa di ydi o fwy. Dwi mewn cariad efo dy wefusa di. Dyna pam dwi 'di bod ishio cysanu chdi ... *'rioed*. Ers Thrî Bî. Jest cusanu! Dim y petha er'ill. Dwi'm ishio gneud y petha er'ill 'na i chdi. (*Saib*) Wel – *oes!* Y petha er'ill 'na hefyd. I *gyd!* Weithia dwi ishio gneud nhw gymaint dwi'n teimlo 'mod i ... Ti'n ca'l gwersi ffidil? ... wel ... ar y ffidil ma 'na E string. Hwnnw 'di'r tant ucha a mae o'n dynn, dynn, a mae o'n gneud noda uchaf fatha sgrech felys. Wel, weithia dwi ishio chdi gymaint, felly dwi'n teimlo ... (*Yma mae Ann yn diolch iddo am ddweud hyn*). O'n i wastad wedi bod ishio deud wrthat ti pa mor dlws oeddat ti. Dwi wastad wedi meddwl pa mor wirion ydio pan ma Victor Mature, ne be 'di enw fo ... Stewart Granger ne' rywun yn deud wrth hogan 'i bod hi'n dlws ... ond mi wyt ti. (*Saib*) A dwi'n gwbod fod genod yn meddwl 'i fod o'n hen ffasiwn pan ma hogia'n deud wrthyn nhw 'u bod nhw'n annwyl. Ond mi wyt ti. (*Saib*) Ma siŵr na chusana i mo'na chdi rŵan tra byddai byw. Na mynd â chdi i'r pictiwr. Na pr'odi chdi a gneud yr holl betha 'na i chdi. Ond 'na i byth dy anghofio di; na'r ffor' nest ti neud imi deimlo. Hyd yn oed pan dwi'n 51 ne' rwbath.

## **Cefndir**

Ffilm Brydeinig yw *P'tang, Yang, Kipperbang* a ddangoswyd yn gyntaf ar Sianel 4 yn 1982. Rhan o gyfres gan yr awdur ar y thema 'Cariad Cyntaf' oedd y ffilm ac wedi ei lleoli yn swbwrbia Llundain yn y pedwardegau hwyr. Mae'r cymeriad (Alan Duckworth) yn fachgen lletchwith pedair ar ddeg oed. Daw'r teitl allan o gyfrinair (*password*) a ddefnyddir gan y gang y mae Alan yn aelod ohono.

## **Cynnwys**

Tra mae ei ffrindiau i gyd â diddordeb mewn rhyw (cyfeiria Alan ato fel 'y petha er'ill 'na'), mae ei holl ffocws o ar gael y cyfle i gusanu Ann Lawton. Ni ystyrir Ann yn ffefryn gan ei ffrindiau gan ei bod mor ffroenuchel a chul. Ond mae cariad Alan tuag ati, yn amlwg, yn ddiderfyn.

## **Awgrymiadau**

Mae hon yn araith sy'n perthyn i'w chyfnod ac yn dangos diniweidrwydd ar ei orau. Mae angen cyfleu y diniweidrwydd yma drwy eich agwedd, eich llais a'ch osgo. Efallai y byddai gwisgo blaser yn helpu i roi'r edrychiad iawn i'r cymeriad. Meddylwch yn galed am ei letchwithdod. Nid swildod sydd yma serch hynny; er mor drwsgwl yw ei arddull, mae'r hyn mae'n ei ddweud wrth Ann yn ddigon gonest.



## 20. ORPHANS

**LYLE KESSLER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts**

**20a) fersiwn gogleddol**

**20b) fersiwn deheuol**

Daw'r dyfyniad hwn o gyfieithiad o Orphans gan Lyle Kessler, a gyhoeddwyd gan Samuel French Inc. yn 1983

© Lyle Kessler, 1983.

Cyfieithwyd ac atgynhychwyd drwy ganiatâd Paradigm Talent Agency, New York.

Cyfieithwyd y dyfyniad i'r Gymraeg gan Cefin Roberts.

©Cefin Roberts

Cedwir pob hawl, ac anfoner unrhyw ymholiad yn y lle cyntaf at  
Ganolfan Peniarth, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Ffordd y Coleg,  
Caerfyrddin, SA31 3EP | [post@peniarth.cymru](mailto:post@peniarth.cymru)

20a)

**ORPHANS – LYLE KESSLER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts – fersiwn gogleddol**

*Mae Phillip yn edrych drwy'r ffenest.*

Ma 'na rywun yn dŵad! Hen ddyn hefo ffon; papur newydd dan 'i fraich, a ma gynno fo fag bapur brown yn llawn o rwbath ... Potal o *Squibbs* siŵr gen i, a jar o fenyn cnau Sunpat a torth o Fecws Mario's ar ben lân. Mynd i neud bechdan menyn cnau iddo fo'i hun ma siŵr ... Ti ishio bwyd? Ella ma ar dy gythlwnw w't ti? Falla ma dyna sy. Dwi'n codi blys arnach chdi'n siarad am yr holl fechdana menyn cnau ma'r hen ddyn 'na'n mynd i neud? ... Fydd Treat adra'n o fuan rŵan a ti'n gwobod bod gynno fo dempar a hannar, 'nenwedig os bydd o 'di groesi. Oedd o wastad yn gorfod sefyll yn y gongol ddrwg pan oedd o'n hogyn bach. 'Y mrawd mawr i ydi o. Ma siŵr gneith o fechdan tiwna Starkist a mayo ar dôt i chdi pan ddaw o'n ôl. Mmmmmmmmmmmmm. Dyna dwi 'di ga'l i ginio ers blynyddoedd rŵan; bechdan tiwna Starkist. O'n i'n arfar gneud bechdan menyn cnau ond ddaru nhw droi arna i'n diwadd am 'mod i angan y newid.

*Mae Treat yn cerdded i mewn.*

Treat! Ti'n ôl!

*Cryfhau.*

Fush i am dro heno. Cerddad reit drosodd i ben pella'r parc. O'n i'n medru anadlu'n iawn, Treat. A ddaru 'nghroen i ddim adweithio fel dudist ti bysa fo. Gymish i'r trê dan ddaear, Treat. Ddudodd Harold sut i neud. Fedri di fod yno drw' dydd yn rhoid arian mân yn y peiriant wrth y giât, fedri di drio deud Open Assesime a bob math o betha, ond i ddim diban os na sgin ti'r pres smalio 'ma. Os na 'sa Harold wedi rhoid un o'r rheiny imi fyswn i'n dal yma! Nest ti rioed ddeud wrtha i lle byswn i'n ca'l rheiny. Nest ti rioed ddeud dim byd wrtha i. 'Mond deud byswn i'n marw taswn i'n mynd tu allan. Yli! (*Yn anadlu'n ddwfn*) Dwi'n anadlu'n iawn. Tydi 'ngwynab i ddim wedi chwyddo a tydi 'nhafod i ddim 'di mynd yn rhyfadd. Gerddish i'r holl ffor' i ben pella Olney heno, Treat. Welish i bobol yn cerddad a plant yn chwerthin. Dwi'm ofn ddim mwy achos mi gesh i hwn gin Harold. (*Mae'n tynnu map allan*) Ro'th o hwn i mi. Nest ti 'rioed roi map imi, Treat? 'Rioed ddeud 'tha i medrwn i ffeindio fy ffor'. Does 'na'm byd yn mynd i ddigwydd imi, Treat, achos dwi'n gwobod lle dwi, a fedri di byth fynd a hynny odd' arna i eto.

Dwi yn rhif chwech, Church Street, Neasden, London NWT 9QH, Prydain Fawr, Y Byd – sy ryw ddwy ran o dair o ganol y Milky Way, sy'n nofio mewn môr o ofod. Dwi'n hollol saff yn fan hyn ac yn gwobod lle ydw i. Yn gwobod yn union lle dwi. Ac os ti ishio chwara cuddiad ... chdi sy'n dŵad i chwilio, OK. Chdi 'di'r un sy'n cyfri i ddeg tro 'ma. Dechreua gyfri Treat ...

*Phil yn gadael y llwyfan wysg 'i gefn – fel petai o'n mynd i guddio.*

20b

**ORPHANS – LYLE KESSLER**

**Cyfieithiad Cefin Roberts – fersiwn deheuol**

*Mae Phillip yn edrych drwy'r ffenest.*

Ma rhywun yn dod! Hen ddyn 'da ffon; papur newydd dan 'i fraich e, a ma 'da fe fag bapur brown yn llawn o rwbeth ... Potel o *Squibbs* 'sbo, a jar o fenyn cnau Sunpat a thorth o Fecws Mario's ar ben yr hewl. Mynd i wneud brechdane menyn cnau i'w hunan siŵr o fod ... Ti moyn bwyd? Falle bo' ti'n starfo, wyt ti? Falle taw 'na beth sydd. Odw i'n codi whant bwyd arnat ti'n siarad am yr holl frechdane menyn cnau ma'r hen ddyn 'na'n mynd i neud? ... Fydd Treat adre whap a ti'n gwbod fod ganddo fe dymer y jiawl – gwa'th os bydd e wedi 'i groesi. O'dd e wastad yn gorffod sefyll yn y gornel ddrwg pan o'dd e'n fachgen bach. 'Y mrawd mawr i yw e. Neiff e frechdan tiwna Starkist a mayo ar dost i ti pan ddaw e'n ôl, siŵr o fod. Mmmmmmmmmmm. 'Na beth 'wi wedi ca'l gydag e ers blynydde nawr; brechdan tiwna Starkist. O'n i'n arfer neud brechdan menyn cnau ond o'n i ffaelau stumogi nhw yn y diwedd achos bo fi ishe'r newid.

*Mae Treat yn cerdded i mewn.*

Treat! Ti 'nôl!

*Cryfhau.*

Es i am wâc heno. Cerdded reit i ben pella'r parc. O'n i'n gallu anadlu'n iawn, Treat. A nath 'y nghro'n i ddim adweithio fel wedest ti y bydde fe. Gymres i'r trêdan dan ddaear, Treat. Wedodd Harold shwt i neud. All di fod yno drwy'r dydd yn rhoi arian mân yn y peiriant wrth y glwyd, all di drial gweud Open Assesime a phob math o bethe, ond sdim iws os nad yw'r arian sbeshal 'da ti. Os na fydde Harold wedi rhoi un o'r rheina i fi, fydden i'n dal 'ma! Wedest ti ddim wrtha i ble bydden i'n ca'l un o'r rheiny. Wedes di ddim byd wrtha i erio'd. Dim ond gweud y bydden i'n marw tasen i'n mynd tu fas. (*Yn anadlu'n ddwfn*) Drycha! 'Wi'n anadlu'n iawn. Dyw 'ngwyneb i ddim wedi chwyddo a dyw 'nhafod i ddim wedi mynd yn rhyfedd. Gerddes i'r holl ffordd i ben pella Olney heno, Treat. Weles i bobl yn cerdded a phlant yn wherthin. Sa i ofon dim mwy achos ges i hwn gan Harold. (*Mae'n tynnu map allan*) Roiodd e hwn i fi. Roiest ti erio'd fap i fi, Treat? Wedest ti erio'd wrtha i y gallen i ffindio'n ffordd. Does dim byd yn mynd i ddigwydd i fi, Treat, achos 'wi'n gwbod ble rydw i, a galli di ddim mynd a hynny oddi arna i byth 'to.

'Wi yn rhif chwech, Church Street, Neasden, London NWT 9QH, Prydain Fawr, Y Byd – sydd rhyw ddwy ran o dair o ganol y Milky Way, sy'n nofio mewn môr o ofod. 'Wi'n hollol saff yn fan hyn a wi'n gwybod ble rydw i. Yn gwybod yn union ble rydw i. Ac os wyt ti moyn where cuddio ... ti sy'n dod i while OK? Ti yw'r un sy'n cyfri i ddeg tro hyn. Dechreua gyfri Treat ...

*Phil yn gadael y llwyfan wysg ei gefn – fel petai'n mynd i guddio.*

## **Cefndir**

Cafodd y ddrama ei llwyfannu am y tro cyntaf gan y Matrix Theatre Company yn Los Angeles yn 1983. Stori am ddau frawd amddifad yn byw mewn tŷ sy'n mynd â'i ben iddo yw cefndir y ddrama. Mae'r brawd mawr (Treat) yn gwarchod ei frawd bach bregus (Philip) – a thrwy fân ladrata mae'n troi'r tŷ yn garchar i'w frawd ieuengaf. Un noson mae'n herwgipio dyn cefnog, oedranus (Harold) sy'n graddol droi'n ffigwr tadol i'r ddau fab.

## **Cynnwys**

Yn yr araith yma mae Philip newydd fod allan i'r byd mawr am y tro cyntaf ac wedi darganfod fod ei frawd mawr wedi ei dwyllo drwy'r holl flynyddoedd. Mae newydd sylweddoli nad oes unrhyw wirionedd yn yr hyn a ddywedodd Treat wrtho y byddai farw o ryw gyflwr a ddioddefodd pan oedd yn blentyn. Roedd Philip wedi cael ei arwain i gredu y byddai'r cyflwr yma'n ail gychwyn petai o'n mentro allan i'r awyr agored. Mae wedi sylweddoli mai twyll oedd y cyfan, a phan ddychwela Treat ar ganol yr araith, mae Philip yn mwynhau'r cyfle i ddweud wrth ei frawd yr hyn mae newydd ei ddarganfod drwy gymorth Harold.

## **Awgrymiadau**

Mae iaith gorfforol a geirfaol Philip wedi eu cyfyngu gan flynyddoedd o gael ei garcharu rhwng muriau'r tŷ. Cyn ei ryddid, dim ond iaith ei frawd, y teledu a'r ychydig a lwyddodd i'w weld drwy'r ffenest yw'r cyfan oedd ganddo. Ceisiwch ddychmygu beth fyddai effaith magwraeth felly wedi ei gael ar ei symudiadau a'i ffordd o siarad. Wedi ei ormesu gan frawd brwnt a threisgar, ceisiwch gyfleu y rhyddid mae Philip yn ei brofi wrth siarad â'i frawd.